# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau | Dyddiad: | Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2022 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | e-bost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 22 GORFFENNAF 2022** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: ESTYNNIR GWAHODDIAD I'R WASG A'R CYHOEDD FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON Y CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 PENODI CADEIRYDD**

**4 PENODI IS-GADEIRYDD**

**5 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 12)

Cael cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 4 Mawrth 2022 (copi ynghlwm).

**7 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU - 'EIN CANFYDDIADAU'** (Tudalennau 13 - 16)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm).

**8 HYFFORDDIANT MOESEG A SAFONAU** (Tudalennau 17 - 110)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ynglŷn â’r deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig awdurdodau perthnasol yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

**9 CANLLAW LLYWODRAETH CYMRU - DYLETSWYDD ARWEINWYR GRŴP I HYRWYDDO YMDDYGIAD MOESEGOL** (Tudalennau 111 - 114)

Derbyn adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ar ganllawiau drafft Llywodraeth Cymru a cheisio eu barn ar gynigion i gefnogi arweinwyr grŵp i gyflawni’r ddyletswydd hon.

**10 FFORWM SAFONAU CENEDLAETHOL** (Tudalennau 115 - 118)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ar greu Fforwm Safonau Cenedlaethol a nodi’r cynnydd a wnaed hyd yma.

**11 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd y Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a Chynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**12 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ystyried Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

**13 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Trefnwyd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ar gyfer 16 Medi 2022.

**RHAN 2: EITEM GYFRINACHOL**

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig (fel y diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf), ei datgelu

**14 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000** (Tudalennau 119 - 126)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy’n rhoi trosolwg o gwynion a wnaed yn erbyn aelodau i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AEOLODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Julia Hughes, Anne Mellor a/ac Peter Lamb

Aelod Cyngor Tref / Cymuned
Gordon Hughes

Cynghorwyr Sir
Y Cynghorydd Bobby Feeley
Y Cynghorydd Hugh Carson Irving

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd trwy gynhadledd Fideo, Dydd Gwener, 4 Mawrth 2022 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Julia Hughes (Is-Gadeirydd), Peter Lamb ac Anne Mellor, ynghyd â'r Cynghorydd Gordon Hughes.

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Monitro (GW), Gweinyddwyr Pwyllgorau (SJ Gweinyddwr) (RTJ).

**1 YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau, Ian Trigger.

Yn ei absenoldeb, byddai'r Is-Gadeirydd Julia Hughes yn cadeirio'r cyfarfod. Dechreuodd Julia'r cyfarfod drwy hysbysu'r pwyllgor y byddai'r cyfarfod hwn wedi bod yr un olaf i'r cadeirydd dros dro; yr oedd wedi gwasanaethu ar y pwyllgor am ddeng mlynedd. Yr oedd y pwyllgor eisiau diolch i Ian Trigger am ei wasanaeth i'r pwyllgor.

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Is-Gadeirydd cyn y cyfarfod.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2021 i'w hystyried.

Materion yn Codi –

- Awgrymodd y pwyllgor y dylid ailenwi'r briffio ymlaen llaw i gynnwys /hyfforddiant er mwyn gwneud y rheswm dros gynnal y sesiynau yn fwy eglur.
- Datganodd y pwyllgor y dylid anfon e-bost atgoffa cyn cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau bod cynifer ag sy'n bosibl o aelodau'r Pwyllgor Safonau yn gallu bod yn bresennol.
- Codwyd mater Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau, ac a oedd wedi ei drafod gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Hysbysodd y Swyddog Monitro

(SM) y pwyllgor nad oedd y mater wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio; fodd bynnag, byddai'n cael ei drafod yng nghyfarfod mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Rhagfyr 2021 fel cofnod cywir.*

## 5 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Gwahoddodd yr Is-Gadeirydd yr aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â phresenoldeb mewn cyfarfodydd.

Nid oedd gan yr aelodau Pwyllgor a oedd yn bresennol yn y cyfarfod unrhyw beth i'w rannu.

Yr oedd cytundeb ymhlith yr aelodau oherwydd yr agosrwydd at y cyfnod cyn yr etholiad eu bod yn gohirio presenoldeb mewn cyfarfodydd tan i'r cyngor newydd gael ei ethol.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r arsylwadau a'r trafodaethau uchod.*

## 6 HYFFORDDIANT MOESEG A SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) yr adroddiad Hyfforddiant Moeseg a Safonau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw); yr oedd yr adroddiad yn manylu ar y trefniadau a wneir ar gyfer hyfforddi aelodau newydd ac aelodau a oedd yn dychwelyd ar ôl yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2022 (yr Etholiadau) ynglŷn â'r Cod Ymddygiad.

Dywedodd y SM mai un o swyddogaethau'r Pwyllgorau Safonau oedd cynghori a threfnu hyfforddiant i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar y Cod Ymddygiad. Byddai'r Etholiadau'n digwydd ar 5 Mai 2022, a byddai raid i bob person a etholwyd arwyddo ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad. Felly, yr oedd yn hanfodol bod yr aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant cyn gynted â phosibl yn dilyn yr Etholiad.

Cynigiwyd cynnal gweithdy Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr Sir yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl yr Etholiadau. Darperir rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer aelodau'r Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

Hysbysodd y SM y pwyllgor bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi llunio set safonol o ddeunyddiau hyfforddi i'w defnyddio gan bob cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2017. Yr oedd bwriad i ddilyn proses debyg eleni, ac mae CLlLC ar hyn o bryd yn paratoi, mewn ymgynghoriad â Swyddogion Monitro, set safonol o ddeunyddiau hyfforddi i'w defnyddio yn dilyn yr Etholiad. Fodd bynnag, nid oedd y deunydd wedi ei gwblhau ar gyfer ei ryddhau.

Pwysleisiodd y SM fod y Prif Weithredwr, yn rhan o'i weledigaeth ar gyfer y Cyngor, wedi sefydlu pum egwyddor a fydd, ynghyd â gwerthoedd y Cyngor, yn sail i'r math o ddiwylliant sefydliadol y mae eisiau ei ddatblygu, sef –

- Parhau i ddatblygu ein diwylliant ein hunain, Dull Sir Ddinbych
- Bod yn Gyngor sy'n nes i'n cymunedau
- Bod â disgwyliadau clir o ran perfformiad
- Hybu cysylltiadau Swyddogion / Aelodau cryfion
- Cefnogi a datblygu ein staff

Byddai'r hyfforddiant a ddarperir i aelodau yn dilyn yr etholiadau hefyd yn ymdrin â'r egwyddorion a'r gwerthoedd hyn a byddai'n cynnwys cyfeiriad tuag at Brotocol y Cyngor ar Gysylltiadau Aelodau / Swyddogion.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol ymhellach –

- Holodd Aelodau a fyddai goblygiadau cost i'r cynghorau tref a chymuned ar gyfer hyfforddi, a dywedodd y SM nad oedd cost erioed wedi ei godi'n flaenorol.
- Codwyd mater amserlen yr hyfforddi, ac a oedd y SM yn gwybod pa mor hir fyddai'r hyfforddi'n ei gymryd. Atebodd y SM nad oedd manylion yr amserlenni ar gael. Fodd bynnag, cynhelir yr hyfforddiant yn fuan wedi'r etholiad.
- Tynnwyd sylw at hyfforddiant y cyfryngau cymdeithasol ac a ddylid cynnal unrhyw hyfforddiant. Hysbysodd y SM y pwyllgor bod cwrs e-fodiwl ar y cyfryngau cymdeithasol ar gael, yn ogystal â deunydd hyfforddi CLlLC.
- Codwyd y mater o fonitro'r hyfforddiant, ac a oedd unrhyw gofnodion o bresenoldeb yn yr hyfforddiant wedi eu cadw er mwyn sicrhau bod aelodau'n derbyn yr hyfforddiant gofynnol. Eglurodd y SM y cedwir cofnodion presenoldeb ar gyfer hyfforddiant.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi'r adroddiad.*

## 7 CYNHADLEDD SAFONAU 2022

Bwriad yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r pwyllgor am gynnwys y Gynhadledd Safonau (CS), a gynhaliwyd ar 9 Chwefror 2022.

Eglurodd y SM i aelodau'r pwyllgor y cynhelir y CS yn flynyddol fel arfer; fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig a'r cyfyngiadau, nid oedd wedi bod yn bosibl cynnal y CS. Er mwyn ailsefydlu'r gynhadledd, cytunwyd i gynnal cynhadledd o bell, wedi ei threfnu gan awdurdodau lleol gogledd Cymru. Cynhaliwyd y gynhadledd dros Zoom ar 9 Chwefror 2022. Thema'r gynhadledd oedd yr Adolygiad Annibynnol o'r Fframwaith Moesegol yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru (LlC) a'i gynnal gan Richard Penn.

Hysbysodd y SM y pwyllgor fod mwy na 100 o gynrychiolwyr ledled Cymru wedi bod yn bresennol yn y CS – a gadeiriwyd gan Julia Hughes yn rhinwedd ei swydd fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint.

Rhoddodd cynrychiolydd o LlC, Lisa James, Dirprwy Gyfarwyddwr Democratiaeth Llywodraeth Leol, gyflwyniad i'r gynhadledd yn ymwneud â'r newidiadau posibl i'r fframwaith moesegol y gellir eu hystyried o ganlyniad i adolygiad Richard Penn.

Ochr yn ochr â'r cyflwyniad gan Lisa James, cafwyd cyflwyniadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Nick Bennett, Paul Egan o Un Llais Cymru, ac Einir Young, Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd. Cyflwynodd y cyfan eu myfyrdodau am yr adolygiad.

Dywedodd y SM mai casgliad cyffredinol y gynhadledd oedd bod adolygiad y fframwaith wedi ei groesawu, fel y canfyddiad nad oedd angen newid sylweddol i'r fframwaith. Mynegodd y cynrychiolwyr eu diolchgarwch bod y fframwaith wedi ei gynnal yng Nghymru a'u dymuniad y byddai'n parhau gyda rhai mân ddiwygiadau. Er bod cefnogaeth aruthrol i'r egwyddor o ddatrysiadau lleol, yn arbennig mewn ymateb i'r nifer fawr o gwynion a oedd yn deillio o gynghorau tref a chymuned, mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r adnoddau angenrheidiol i swyddogion monitro allu ymdrin â'r nifer o gwynion pe bai disgwyl iddynt geisio datrys pob cwyn o'r fath.

Cytunodd y Cadeirydd Dros Dro, Julia Hughes, a gadeiriodd y CS, gyda'r SM fod y CS wedi bod yn fuddiol i bawb a oedd yn bresennol.

Trafododd y pwyllgor y canlynol yn fwy manwl –

- Cododd y pwyllgor yr arferion da a rennir, ac a ellid rhannu arferion da rhwng pob Cyngor ledled Cymru. Eglurodd y SM bod cydsyniad ymysg cynrychiolwyr y dylid ymestyn yr arferion da presennol a nodwyd ar ffurf Fforwm Safonau Gogledd a Chanolbarth Cymru i fod yn Fforwm Safonau Cymru Gyfan.
- Holodd y pwyllgor am y llawlyfr Democratiaeth, ac a ellid dod ag ef i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn i'r pwyllgor ei drafod. Dywedodd y SM fod y llawlyfr ar ffurf drafft ar hyn o bryd ac y gellid dod ag ef i gyfarfod yn y dyfodol cyn gynted ag y byddai ar gael.
- Holwyd am Adolygiad Penn, ac a ofynnwyd i aelodau etholedig gyfrannu ato. Atebodd y SM nad oeddynt wedi eu cynnwys yn yr adolygiad, a hynny drwy amryfusedd; fodd bynnag, yr oedd hyn yn cael ei ymchwilio.
- Codwyd y mater o recordio cyfarfodydd, a holodd aelodau am ba hyd oedd yr hyn a recordiwyd (gweddarllediadau) ar gael. Dywedodd y SM fod recordiadau cyfarfodydd ar gael ar y wefan am chwe mis yn dilyn cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *bod aelodau'n nodi'r adroddiad ynglŷn â'r Gynhadledd Safonau.*

**8 Y BROSES O RECRIWTIO AELODAU ANNIBYNNOL PWYLLGORAU SAFONAU**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) adroddiad y Broses ar gyfer Recriwtio Aelodau Annibynnol y Pwyllgorau Safonau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Nod yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gofyniad i recriwtio aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau a'r broses y dylid ei ddilyn wrth wneud hyn.

Mae Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 yn nodi'r gofynion o ran maint a chyfansoddiad pwyllgorau safonau. Mae'n rhaid i bwyllgorau safonau gynnwys dim llai na phum aelod, a dim mwy na naw.

Yr oedd Cadeirydd y Pwyllgor, aelod annibynnol, yn dynesu at ddiwedd yr ail dymor yn ei swydd, a oedd i ddod i ben ym mis Mai 2022. Byddai raid, felly, i'r Cyngor ddechrau proses recriwtio ar gyfer aelod annibynnol. Yn ôl y Rheoliadau, mae'n rhaid hysbysebu'r swydd wag mewn o leiaf dau bapur newydd sy'n cylchredeg yn yr ardal. Mae'n rhaid i'r Cyngor sefydlu panel o ddim mwy na phump o bobl, yn cynnwys o leiaf un cynghorydd cymuned ac un aelod lleyg.

Dywedodd y SM y gofynnwyd i'r Cyngor enwebu tri chynghorydd sir i fod ar y panel, yn ychwanegol i'r aelod lleyg a'r cynghorydd sir, mewn ymarferion recriwtio yn y gorffennol. Byddai'r Panel yn cyf-weld ymgeiswyr ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor. Gofynnir i'r Cyngor benodi'r ymgeisydd a argymhellir.

Penodwyd y cynrychiolydd Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor am y cyfnod cyntaf ym mis Chwefror 2018. Mae'n rhaid i gyfnod cynrychiolydd Cyngor Cymuned yn y swydd ddod i ben adeg yr etholiad llywodraeth leol yn dilyn ei benodiad. Gall cynrychiolydd Cyngor Cymuned wasanaethu am ail dymor os yw'n parhau i fod yn gynghorydd dinas, tref neu gymuned. Cyn gallu ailbenodi cynrychiolydd Cyngor Cymuned, yr oedd yn ofynnol bod y Cyngor yn ymgynghori â chynghorau dinas, tref a chymuned yn ei ardal. Yr oedd hwn yn broses y gellid ei ystyried yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol.

Hysbyswyd y pwyllgor a'r SM gan y cynrychiolydd Cyngor Cymuned presennol, Gordon Hughes, y byddai'n dymuno parhau i fod yn aelod o'r pwyllgor pe bai'n cael ei ailethol yn gynghorydd tref.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (a ddosbarthwyd ymlaen llaw).

- Mehefin 2022 – Cod Ymddygiad cyflogeion.
- Mehefin 2022 – Gellid dod â'r llawlyfr democratiaeth i'r cyfarfod ym mis Mehefin; fodd bynnag, dywedodd y SM y gellid gohirio hyn tan fis Medi 2022.
- Medi 2022 – Adolygu'r hyfforddiant ar gyfer aelodau etholedig newydd, a'r nifer sy'n cymryd rhan.

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar yr uchod, y dylid cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau.*

## 10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cadarnhawyd y bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau ddydd Gwener, 17 Mehefin, am 10:00am.

## 11 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro (SM) yr adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) i roi trosolwg i'r Aelodau o'r cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ers 1 Ionawr 2018.

Siaradodd y SM am gwynion parhaus a gyflwynwyd, gan roi manylion amlinellol natur y cwynion a wnaed a'r camau a gymerwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Pwyllgor Safonau yn nodi cynnwys yr adroddiad*

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau] |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 22/ 07 / 2022 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru – 'Ein Canfyddiadau' |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cyflwyno 'Ein Canfyddiadau' ar wefan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i aelodau am yr adran 'Ein Canfyddiadau' ar wefan yr Ombwdsmon sy'n disodli'r Coflyfr Cod Ymddygiad blaenorol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad hwn

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn cofio bod yr Ombwdsmon eisoes wedi cyhoeddi 'Coflyfr Cod Ymddygiad' (y Coflyfr) bob chwarter a oedd yn nodi crynodeb byr o faterion yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon a'r canlyniad a ddeilliodd o'r ymchwiliad hwnnw.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.2. Roedd y Coflyfr yn cael ei ystyried yn arf defnyddiol i roi cipolwg i aelodau etholedig, y cyhoedd, a phwyllgorau safonau ar y mathau o gwynion oedd yn cael eu hymchwilio a chanlyniadau'r ymchwiliadau hynny.

4.3. Mae’r Ombwdsmon bellach wedi rhoi’r gorau i gyhoeddi’r Coflyfr ac yn lle hynny mae wedi creu adran ‘Ein Canfyddiadau’ ar ei gwefan y gellir ei chyrchu drwy’r ddolen ganlynol: http://ombwdsmon.cymru/canfyddiadau/

4.4. Mae’r adran ‘Ein Canfyddiadau’ yn cynnwys cyfleuster chwilio lle gellir chwilio am fanylion achosion a ystyriwyd gan yr Ombwdsmon yn ôl pwnc, yn ôl awdurdod, yn ôl canlyniad, yn ôl dyddiad, ac yn ôl rhif cyfeirnod achos. Mae'r adran yn ymdrin â phob mater y mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio iddo ac nid materion Ymddygiad yn unig.

4.5. Mae’r adroddiad hwn yn ymdrin â’r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2021 a 30 Mehefin 2022. Mae’r adran ‘Ein Canfyddiadau’ ar wefan yr Ombwdsmon yn cynnwys crynodeb o 31 o achosion yr ymchwiliwyd iddynt gan yr Ombwdsmon, wedi’u dadansoddi fesul pwnc fel a ganlyn:

Uniondeb 12

Cydraddoldeb a pharch 12

Datgelu a chofrestru buddiannau 3

Dyletswydd i gynnal y gyfraith 3

Anhunanoldeb a Stiwardiaeth 1

4.6. Mm Gellir categoreiddio’r canlyniadau fel a ganlyn:

Dim tystiolaeth o dorri amodau 10

Ymchwiliad yn dod i ben 5

Dim angen gweithredu 6

Atgyfeirio i Bwyllgor Safonau 7

Atgyfeirio i Banel Dyfarnu Cymru 3

4.7. Dim ond un o'r achosion hyn oedd yn ymwneud â chyngor yn Sir Ddinbych. Roedd yr achos hwn yn ymwneud â phostio delwedd o gamera teledu cylch cyfyng ar dudalen Facebook Cyngor Tref Bodelwyddan a gallai fod wedi bod yn bosibl adnabod person ifanc unigol ohono. Cyfeiriodd y Cyngor Tref y mater i swyddfa’r Ombwdsmon ac ymchwiliwyd iddo. Canfu’r Ombwdsmon y gallai’r aelod fod wedi torri paragraffau 5(a) a 6(1)(a) o’r Cod Ymddygiad. Fodd bynnag, gan nad oedd y Cyngor Tref wedi darparu hyfforddiant ar ddefnyddio ei gyfryngau cymdeithasol, neu system teledu cylch cyfyng, ac, o ystyried bod y Cynghorydd wedi ymddiheuro a thynnu’r ddelwedd yn gyflym pan ofynnwyd iddi wneud hynny, roedd yr Ombwdsmon o’r farn nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

4.8. Mae’r achosion a gyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru (y Panel) yn cael eu cofnodi fel tri mater ond mewn gwirionedd maent yn ymwneud â dwy gŵyn sylweddol.

4.9. Roedd y cyntaf o’r rhain yn ymwneud ag aelod o gyngor cymuned a oedd wedi methu â datgelu euogfarn droseddol wrth sefyll etholiad yn 2018. Byddai’r euogfarn wedi anghymhwyso’r aelod rhag gallu sefyll. Roedd yr aelod felly wedi bod yn aelod ers blwyddyn ac wyth mis ar ragosodiad ffug. Ymddiswyddodd yr aelod ond penderfynodd y Panel y dylid ei wahardd rhag dal swydd neu sefyll am etholiad am gyfnod o 24 mis.

4.10. Roedd yr ail fater a gyfeiriwyd at y Panel yn ymwneud ag aelod a oedd yn aelod o gyngor tref a chyngor sir. Dros gyfnod o sawl mis, roedd yr aelod wedi postio gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol am yr achwynydd y gwyddai ei fod yn anghywir, a darparwyd peth ohoni i'r aelod yn gyfrinachol fel cynghorydd. Aeth yr aelod hefyd at yr achwynydd yn y stryd gan arwain at rhywbeth a ddaeth yn ddigwyddiad heddlu. Canfu'r Panel fod yr aelod wedi torri paragraffau 6(1)(d), 6(2) a 7(a) o'r Cod Ymddygiad a'i fod wedi gosod gwaharddiad dros dro am 9 mis. Canfu’r Panel, er bod yr aelod wedi torri paragraffau 4(b), 6(1)(a) a 7(a), y byddai unrhyw gyfyngiad neu sancsiwn a osodwyd yn gyfyngiad posibl ar hawl Erthygl 10 yr aelod i Ryddid i Lefaru ac felly ni osodwyd unrhyw gyfyngiad mewn perthynas â'r agwedd hon o'r mater.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn 6.1, nid oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad.

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 22 / 07 / 2022 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Hyfforddiant ar Foeseg a Safonau |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig ar foeseg a safonau.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu'r Pwyllgor am y deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig awdurdodau perthnasol yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod  Pwyllgor yn ystyried y deunyddiau a ddefnyddir i hyfforddi aelodau etholedig ar foeseg a safonau

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Testun yma Un o swyddogaethau'r Pwyllgor hwn yw goruchwylio'r trefniadau ar gyfer hyfforddi aelodau etholedig ar ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad. Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ym mis Mawrth eleni ar y dull cyffredinol o ymdrin â'r hyfforddiant hwn ond nid oedd y deunyddiau i'w defnyddio ar gael eto bryd hynny.

4.2. Mae CLlLC wedi cynhyrchu set gyffredin o ddeunyddiau hyfforddi i'w defnyddio wrth ddarparu hyfforddiant mewn perthynas â'r Cod Ymddygiad. Mae'r deunyddiau hyn ynghlwm fel Atodiadau 1 a 2

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.3. Yn ogystal, mae'r Swyddog Monitro wedi cynhyrchu cyflwyniad yn lleol i Gynghorwyr Sir ar Brotocol y Cyngor ar Gysylltiadau Aelod-Swyddogion, y mae copi ohono ynghlwm fel Atodiad 3.

4.4. Cynhaliwyd tair sesiwn hyfforddi ar wahân yn ystod yr wythnos gyntaf ar ôl yr etholiadau llywodraeth leol ar gyfer aelodau'r Cyngor Sir yn ogystal â thair sesiwn ar wahân ar y Protocol ar Gysylltiadau Aelod Swyddogion. Nid yw pob cynghorydd wedi mynychu'r sesiynau hyn a bydd sesiynau pellach yn cael eu trefnu ym mis Medi. Mae'r Swyddog Monitro hefyd wedi ymrwymo i fynychu cyfarfodydd o'r grwpiau gwleidyddol i ateb unrhyw gwestiynau a allai fod ganddynt ar gymhwyso'r Cod Ymddygiad.

4.5. Mae'r Swyddog Monitro a'r Dirprwy Swyddog Monitro hefyd wedi cynnal dwy sesiwn ym mis Gorffennaf ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned, gyda sesiynau pellach i'w cynnal ym mis Medi. Bydd sesiwn ar wahân i Glercod hefyd.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, fodd bynnag, mae safonau ymddygiad uchel yn elfen allweddol o lywodraeth leol effeithio

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau sylweddol yn gysylltiedig â darparu'r hyfforddiant hwn a thelir unrhyw gostau o'r cyllidebau presennol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewn perthynas â'r adroddiad hwn

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn 6.1, ni fydd unrhyw newid sylweddol i'r gofyniad cost net ar gyfer y gwasanaeth hwn a bydd yn cael ei dalu o'r dyraniadau cyllideb bresennol. Felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn. Bydd darparu hyfforddiant yn cynorthwyo aelodau i ddilyn darpariaethau'r Cod Ymddygiad ac yn helpu i liniaru'r risg o ymddygiad gwael

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a54 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cym
Welsh Local Government Associat

CLlLC
WLGA

# Rhaglen Gyflwyno'r Cynghorwyr
# Moeseg a safonau

yddiad/Date

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

ww.wlga.wales @WelshLGA

# Amcanion Dysgu

**Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r cynghorwyr allu:**

Deall pwysigrwydd y fframwaith moesegol a'r gofyn iddyn nhw gadw ato yn ôl y côd ymddwyn

Deall sut mae gweithredu yn ôl y côd, yn arbennig ynglŷn â datgan buddiannau

Deall beth fyddai'n digwydd pe baen nhw'n torri'r côd

Gwybod ble mae cynghorion a gwybodaeth ar gael



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Llywodraethu'n foesegol

fod yn effeithiol, rhaid i fyd llywodraeth leol ymddwyn yn ôl safonau uchel fel y bydd pawb yn hyderus

ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.


Fel cynrychiolwyr etholedig mae disgwyl i chi ymddwyn mewn ffyrdd penodol, beth bynnag fo’ch

cefndir unigol neu’ch credoau gwleidyddol.



LLAIS CYNGHORAU CYMRU
THE VOICE OF WELSH COUNCILS

# Pam ei fod yn bwysig? Rydym eisiau osgoi…



West Lancashire Labour councillor suspended over Sir Keir Starmer tweet

Labour Leicester councillor suspended in anti-Semitism

23 November 2021

A Labour spokesman said the party "takes all complaints of anti-Semitism extremely seriously and they are fully investigated"

A Labour councillor has been suspended from the party pending an investigation into anti-Semitism allegations.

Jacky Nangreave, who represents Westcotes ward at Leicester City Council, was suspended over accusations about posts on her social media pages.

Tory councillor in Worthing suspended over alleged support of far right

Party is investigating Tim Wills over claims he supports Patriotic Alternative, which promotes 'white genocide' theories

Councillor suspended following posts supporting Putin's invasi

Angus Williams

Published: 6:00 AM February 26, 2022 Updated: 11:07 AM February 26,

Shayne Pooley, Ipswich borough councillor for the Gainsborough Ward, the Conservative party following posts supporting Putin's invasion of UK IMAGES/IPSWICH BOROUGH COUNCIL

An Ipswich councillor has been suspended while an investigation is carried out into social media posts apparently backing Vladimir Putin's invasion of Ukraine posted on his account.

Shayne Pooley, a councillor for Gainsborough ward, has been suspended from the Conservative party while an investigation is carried out, a Tory spokesman confirmed. He will continue to sit as a councillor.

Solihull councillor suspended by Tory party over autism comments

29 September 2021

Angela Sandison apologised to parents and resigne

Tory councillor suspended over fake photo of Corbyn at Liverpool hospital bombing

Paul Nickerson shared mocked-up image of former Labour leader laying wreath at bomb site

Tim Wyatt • Wednesday 17 November 2021 10:13

# Pam ei fod yn bwysig? Rydym eisiau osgoi...

## ewport councillor suspended after reatening GP's staff

ctober 2021



Watkins said staff at Isca medical

ncillor has been suspended fo tening" with staff at GP's su

ort councillor Joan Watkins w dealing with Isca Medical cent

Services Ombudsman Wales ved as a representative for Ane

News › Politics › Monmouthshire Council

## Councillor who said homosexuality is 'unnatural, perverted, immoral and wrong' has been suspended

Graham Down said that "both homosexual and paedophile acts" were "comparable in substance

SHARE COMMENTS

By Ruth Mosalski Political Editor

A councillor who said homosexuality was "unnatural, perverted, immoral and wrong" has been suspended.

Graham Down was found to have breached the code of conduct for Monmouthshire County Council when he emailed the chief executive, Paul Mathews, wit

The Met Office exactly where in Wales



blic buildings to mar

one sent in Februa

nbow flag as a "ridic

d paedophile acts a

BBC Sign in Home News Sport Weather iPlayer

NEWS

Home | War in Ukraine | Coronavirus | Climate | UK | World | Business | Politics | Tech | Science | He

England | Local News | Regions | Birmingham & Black Country

## Solihull councillor suspended by Tory party over autism comments



l to parents and resigned from the children's se

pended by the Conservatives after she m renting skills were linked to a rise in auti

hull Council's children's services scrutiny

BBC Sign in Home News Sport Weather iPlayer Sounds

NEWS

Home | War in Ukraine | Coronavirus | Climate | UK | World | Business | Politics | Tech | Science | Health

England | Local News | Regions | Leicester

## Labour Leicester councillor suspended in anti-Semitism probe

23 November 2021



GOOGLE

A Labour spokesman said the party "takes all complaints of anti-Semitism extremely seriously and they are fully investigated"


**A Labour councillor has been suspended from the party pending an investigation into anti-Semitism allegations.**

Jacky Nangreave, who represents Westcotes ward at Leicester City Council, was suspended over accusations about posts on her social media pages.

## Councillor suspended following Facebook posts supporting Putin's invasion

Angus Williams

**Published:** 6:00 AM February 26, 2022 **Updated:** 11:07 AM February 26, 2022



Shayne Pooley, Ipswich borough councillor for the Gainsborough Ward, has been suspended by the Conservative party following posts supporting Putin's invasion of Ukraine - Credit: TASS/PA IMAGES/IPSWICH BOROUGH COUNCIL

An Ipswich councillor has been suspended while an investigation is carried out into social media posts apparently backing Vladimir Putin's invasion of Ukraine posted on his account.

Shayne Pooley, a councillor for Gainsborough ward, has been suspended from the Conservative party while an investigation is carried out, a Tory spokesman confirmed. He will continue to sit as a councillor.

## Labour council chief is suspended after secret recording of him calling female Plaid Cymru politician a 'cow' appeared online

- **Rob Jones made comments during meeting he didn't know was being recorde**
- **Council leader has been suspended from while an investigation is carried out**
- **Mr Jones says clip was made without knowledge and consent and was edited**

By MATT DRAKE FOR MAILONLINE

**PUBLISHED:** 18:51, 7 March 2021 | **UPDATED:** 18:58, 7 March 2021

Share 145 shares 69 View comm

A Welsh council leader has been suspended after he was secretly recorded calling female politician a 'cow'.

Council leader Rob Jones made the 'despicable' comments during a meeting but not know it was being recorded.

It has now come to light after the clip of the insult aimed at Plaid Cymru politician Bethan Sayed MS was shared online.



# Fframwaith moesegol

**Pwyllgor Nolan ym 1997 - tarddiad Fframwaith Safonau Bywyd Cyhoeddus**

**A chithau'n gynghorydd, rhaid cadw'r egwyddorion hyn mewn cof:**

Bod yn anhunanol

Gonestrwydd

Uniondeb a phriodoldeb

**Dyletswydd i hybu'r gyfraith**

**Gwarchod**

Penderfynu'n wrthrychol

**Cydraddoldeb a pharch**

Agwedd agored

Atebolrwydd

Arwain

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Eich cyfrifoldebau

Mae gofyn statudol ichi weithredu'n foesegol yn ôl Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000

Mae Gorchymyn Côd Ymddygiad Safonol Awdurdodau Lleol Cymru 2008 yn gofyn i bob awdurdod sefydlu côd ymddwyn sydd wedi'i seilio ar yr un wladol



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Côd ymddwyn

Dangos sut mae defnyddio'r fframwaith moesegol

Chewch chi ddim bod yn gynghorydd heb lofnodi datganiad eich bod yn ei dderbyn nac addo trwy ythyr y byddwch chi'n cadw ato. Os nad yw hwn yn cael ei gwblhau o fewn dau fis byddwch yn rhoi'r gorau i fod yn aelod

O fethu â chadw ato, bydd modd eich gwahardd rhag bod yn gynghorydd

Mae'n berthnasol i gynghorwyr Cymru i gyd ac eithrio aelodau awdurdodau heddlu, a ddylai weithredu yn ôl côd ymddwyn Lloegr



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Mae'n berthnasol i chi pan foch chi…

Yng nghyfarfodydd 'swyddogol' yr awdurdod

Mewn unrhyw gyfarfod lle mae rhai o gynghorwyr neu swyddogion yr awdurdod yn bresennol

Yn gweithredu ar ran yr awdurdod (neu'n honni/ cyfleu'r argraff eich bod yn gwneud hynny)

Yn cyflawni gwaith yr awdurdod yn rhinwedd eich swydd yn gynghorydd ac ar ran yr awdurdod

Yn cyflawni gorchwyl swyddogol

Yn cynrychioli'r awdurdod mewn corff arall oni bai bod gan y corff hwnnw ei gôd ei hun neu reolau cyfreithiol sy'n groes i'ch côd chi

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# A hefyd…

Unrhyw bryd os ydych chi'n:

Ymddwyn mewn modd sy'n debygol o ddwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod

Defnyddio'ch statws i ennill mantais neu osgoi anfantais er eich lles chi neu er lles pobl eraill

Camddefnyddio adnoddau'ch awdurdod



LLAIS CYNGHORAU CYMRU
THE VOICE OF WELSH COUNCILS

# Rheolau cyffredinol y côd

Hybu cydraddoldeb

Parchu pobl a rhoi pob ystyriaeth i'w hanghenion

Peidio ag erlid pobl nac aflonyddu arnyn nhw

Gadael i swyddogion weithredu'n amhleidiol

Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol

Peidio â rhwystro neb rhag gweld gwybodaeth

Peidio â dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod

Tynnu sylw at achosion o dorri'r côd

LLAIS CYNGHORAU CYMRU
THE VOICE OF WELSH COUNCILS

# Rheolau cyffredinol y côd (parhad)

Peidio â chwyno'n flinderus

Cydweithredu ag ymchwiliadau

Peidio â defnyddio'ch swydd yn amhriodol

Peidio â chamddefnyddio adnoddau'r awdurdod

Dod i benderfyniadau'n wrthrychol

Ystyried cyngor mae swyddogion yn ei roi ichi a rhoi rhesymau os nad ydych chi'n ei dderbyn

Cydymffurfio â'r gyfraith a rheolau'r awdurdod ynglŷn â threuliau

Peidio â derbyn unrhyw roddion, cymwynas na  chroeso fyddai'n arwain at ddisgwyl ichi wneud rhywbeth neu'n cyfleu'r argraff honno

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Buddiannau

Dylai pobl fod yn hyderus eich bod yn penderfynu  er eu lles nhw, nid er eich lles chi!

Felly, os ydych chi'n ymwneud â mater mewn unrhyw ffordd, **rhaid ichi ddatgan hynny**.



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Buddiannau personol

Mae buddiannau personol pan fydd penderfyniad yn ymwneud â chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, neu'n debygol o wneud hynny, ynghylch:

- Eich swydd neu'ch busnes
- Eich cyflogwr neu gwmni rydych chi'n bartner neu'n gyfarwyddwr ynddo
- Rhywun sydd wedi helpu i dalu'ch costau yn yr etholiad neu'ch treuliau wedyn
- Unrhyw gwmni a chanddo adeiladau neu dir yn eich bro, os oes gennych chi ynddo gyfrannau gwerth dros £25,000 neu dros 1% o gyfrannau'r cwmni i gyd
- Unrhyw gytundeb mae'ch awdurdod yn ei sefydlu gyda chwmni rydych chi'n bartner, yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr ynddo

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Buddiannau personol (parhad)

Unrhyw dir rydych chi'n ymwneud ag e yn ardal eich awdurdod

Unrhyw dir mae'ch awdurdod yn ei roi ar osod i gwmni rydych chi'n bartner, yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr ynddo

Unrhyw dir yn ardal eich awdurdod mae gyda chi drwydded i fod arno am o leiaf 28 diwrnod

Unrhyw gorff mae’ch cyngor wedi’ch penodi neu’ch enwebu i wasanaethu ynddo.

Unrhyw awdurdod neu gorff cyhoeddus sy’n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus eu natur, elusen, barn neu bolisi cyhoeddus, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol, cymdeithas neu glwb preifat yn ardal eich awdurdod lle rydych chi’n aelod neu’n rheolwr.

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# ‘Rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda’

Eich cyfaill gorau, a‘ch gelyn gwaethaf...

- Cyfeillion agos
- Cydweithiwr mae gyda chi gysylltiadau cryf â nhw
- Pobl rydych chi'n gysylltiedig â nhw trwy fusnes
- Perthnasau agos
- Rhywun y buoch chi mewn anghydfod ag e

Ond nid pobl o'ch cydnabod, pobl sy'n perthyn ichi o bell na'r rhai rydych chi'n cwrdd â nhw trwy'ch gwaith



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Beth mae rhaid ei wneud os oes budd personol gyda chi?

Rhaid ei ddatgan ar lafar mewn cyfarfod

Rhaid ei ddatgan wrth ysgrifennu neu sôn am y pwnc y tu allan i gyfarfod

Rhaid llenwi ffurflen datgan buddiannau

OND mae gyda chi hawl i gymryd rhan yn y trafodaethau a phleidleisio oni bai bod **budd niweidiol**



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Buddiannau niweidiol

Unrhyw fuddiannau personol y byddai'r cyhoedd yn eu hystyried yn rhai sy'n debygol o effeithio ar eich barn neu'ch gallu i fod yn wrthrychol, er enghraifft:

- Os yw'ch merch yn byw wrth ymyl safle mae bwriad i godi tai arno
- Os yw'ch mab yn mynychu ysgol mae bwriad i'w chau



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Beth mae rhaid ei wneud os oes gyda chi fuddiannau niweidiol?

- Rhaid ichi adael y cyfarfod cyn y drafodaeth
- Chewch chi ddim defnyddio pwerau sydd wedi'u dirprwyo
- Chewch chi ddim ceisio dylanwadu ar y penderfyniad
- Chewch chi ddim siarad na rhoi tystiolaeth ysgrifenedig

**ONI BAI**

- bod Pwyllgor y Safonau wedi gadael ichi wneud hynny
- bod hawl i ddinasyddion siarad neu roi tystiolaeth (ar yr amod eich bod chi'n gadael ar ôl siarad)
- bod gofyn ichi fynd gerbron pwyllgor craffu

# Ymarfer ynglŷn â buddion

Yn eich grwpiau, ystyriwch y sefyllfaoedd ac ateb y cwestiynau

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Astudiaeth Achos: Datgan cysylltiad personol

Cynrychiolodd aelod etholedig ei Gyngor ar gabinet corff economaidd rhanbarthol.

Honnwyd bod yr Aelod wedi prynu cyfranddaliadau mewn cwmni a oedd wedi cael mangreoedd ar brydles gan Fargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd, i weithgynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd a datblygu ceisiadau. Wedi hynny, honnwyd iddo fethu â datgan buddiant yn y Cwmni yn ystod Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Astudiaeth Achos: Datgan cysylltiad personol

[Y]mchwiliwyd i'r gŵyn ar y sail y gallai methiant wedi bod i gydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod [Y]mddygiad:

**(1)(a)** – ni ddylai aelodau ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu awdurdod;

**[3](a)** – ni ddylai aelodau, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eu safle i roi neu i sicrhau mantais [i]ddynt eu hunain.

**0(2)(viii)** – rhaid i aelodau ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eu hawdurdod, os yw'n ymwneud ag, [n]eu'n debygol o effeithio... unrhyw gorff y maent wedi'u hethol iddo, eu penodi neu eu henwebu gan eu hawdurdod.

**1(1)** – Pan fydd gan aelod fuddiant personol mewn unrhyw fusnes ei awdurdod a phan fydd yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff [y] busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddo ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r [c]yfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

**4(1)(a)** – Pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo gan bwyllgor [s]afonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei [c]ynnal.

# Astudiaeth Achos: Datgan cysylltiad personol

Canfu'r ymchwiliad fod gan yr Aelod fynediad at wybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd ei swydd ar Gabinet Rhanbarthol y Fargen Ddinesig, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (“CCR”), a'i alluogodd i brynu cyfranddaliadau yn y Cwmni am bris isel gyda disgwyliad rhesymol y gallai werthu'r cyfranddaliadau hynny'n ddiweddarach am werth uwch.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd ei weithredoedd yn unol ag ysbryd yr Egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymddygiad, yn enwedig yr egwyddor o uniondeb, sy'n disgwyl i aelodau beidio â gweithredu neu wneud penderfyniad er mwyn cael buddion ariannol drostynt eu hunain.

O ran yr honiad bod yr Aelod wedi methu â datgan cysylltiad, yn dilyn ymchwiliad gwelwyd bod yr Aelod wedi methu â datgan cysylltiad yn y Cwmni yn ystod y cyfarfodydd Cabinet Rhanbarthol ac, er na wnaethpwyd unrhyw penderfyniadau o ran y Cwmni yn ystod y cyfarfod hwn, roedd methiant yr Aelod i ddatgan cysylltiad personol ac sy’n rhagfarnu a gadael y cyfarfod yn awgrymu ei fod yn torri’r Cod Ymddygiad.

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Astudiaeth Achos: - Canlyniad

**Natur yr honiad:** Torri paragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1) a 14(1)(a) o God Ymddygiad y Cyngor

**Penderfyniad y Tribiwnlys:** Gwahardd am 5 mis



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Dod i farn neu benderfyniad ymlaen llaw

**Barnu ymlaen llaw** – mae gennych chi farn am y pwnc ond heb arddel safbwynt eto

**Penderfynu ymlaen llaw** – rydych chi wedi dod i benderfyniad na all unrhyw ddadl ei newid

A chithau'n ymwneud â phenderfyniad, dylech chi osgoi cyfleu'r argraff eich bod wedi penderfynu sut byddwch chi'n pleidleisio yn y cyfarfod

“Mae barn gyda fi, ond hoffwn i wrando ar yr holl ddadleuon cyn dod i benderfyniad.”



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Gogwydd

Pan fo'n ymddangos bod gogwydd, rhaid cofio y gallai hynny effeithio ar y penderfyniad achos y bydd modd codi amheuon wedyn.

Dyma achos fu gerbron yr Uchel Lys: Kelton v Wiltshire

Cafodd caniatâd cynllunio ar gyfer codi tai ei ddileu am fod aelod o bwyllgor cynllunio wedi amlygu gogwydd.



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Trefniadau cadw llygad

Swyddog monitro

Pwyllgor safonau

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Panel Dyfarnu Cymru



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Beth sy’n digwydd os ydych yn torri’r Cod?

Bydd cwynion yn cael eu gwneud i’r Ombwdsmon

Mae’r Ombwdsmon yn ystyried cwynion drwy ddefnyd
prawf dau gam:
1 – a yw’r dystiolaeth yn awgrymu ei fod wedi torri’r co
ymddygiad?
2 – os caiff ei brofi, a yw’n ddigon difrifol ac o fudd y cy
i gael ei ymchwilio?
Os ydyw, bydd yn cael ei ymchwilio

Unwaith bydd y gwyn yn cael ei ymchwilio, os ydynt yn credu bod modd ei gyfiawnhau byddant yn ei gyfeirio at bwyllgor safonau’r awdurdod neu at dribiwnlys a fydd yn cael ei gynnull gan Banel Dyfarnu Cymru

Os bydd prawf bod sail i’r gwyn, gallent osod ystod o
o ddim camau gweithredu hyd at waharddiad
am 5 mlynedd

---

Hyd yn oed os ydych yn cael eich gwahardd dros dro, rydych yn dal i orfod cadw at y Cod!

Cofiwch am unrhyw weithdrefnau datrysiad lleol hefyd



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Beth sy'n digwydd os ydych yn torri'r Cod?

**Canlyniadau o'r adolygiad Ombwdsmon:**

Dim tystiolaeth o dorri'r cod

Dim angen cymryd camau gweithredu

Cyfeiriad at y Swyddog Monitro

Cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru

**Cosbau Posibl:**

Pwyllgor Safonau:

- Cerydd
- Atal neu rhannol atal am hyd at 6 mis

Panel Dyfarnu Cymru:

- Atal am hyd at flwyddyn
- Gwahardd am hyd at 5 mlynedd

Sylwer: Efallai bydd datrysiad lleol y Pwyllgor Safonau yn dal i gael ei drafod a'i ddadlau mewn fforwm cyhoeddus

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Ombwdsmon – Y Broses Gwynion



LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Ymarfer - Holiadur

LLAIS CYNGHORAU CYMRU

# Rhagor o wybodaeth

Os nad ydych chi'n siwr, holwch swyddog monitro'r awdurdod neu Glerc y Pwyllgor

Canllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

https://www.ombwdsmon.cymru/


Yn achos Cynghorau Cymuned, Plwyf a Thref, cysylltwch ag Un Llais Cymru, Cymdeithas Clercod y Cynghorau Lleol neu Gymdeithas Genedlaethol y Cynghorau Lleol

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

CLlLC
WLGA

# Cyflwyno Moeseg

Pecyn hysbysu i'r hwyluswyr



**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
**Welsh Local Government Association**

**Un Rhodfa'r Gamlas**
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF
**Ffôn:** 029 2046 8600

**wlga.cymru**

**One Canal Parade**
Dumballs Road
Cardiff
CF10 5BF
**Tel:** 029 2046 8600

**wlga.wales**

# Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Llais Cynghorau Cymru

Ni yw Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Rydym yn sefydliad trawsbleidiol dan arweiniad gwleidyddol sy’n ceisio rhoi llais cryf i lywodraeth leol ar lefel genedlaethol. Rydym yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol ac yn hybu democratiaeth leol yng Nghymru.

Y 22 Cynghorau yng Nghymru yw ein aelodau ac mae'r tri awdurdod tân ac achub ac awdurdodau'r tri pharc cenedlaethol yn aelodau cyswllt.

**Rydym yn credu bod y syniadau sy’n newid bywydau pobl yn digwydd yn lleol.**

Mae cymunedau ar eu gorau pan maent yn teimlo eu bod wedi cysylltu â’u cyngor trwy ddemocratiaeth leol. Trwy gefnogi, hwyluso a chyflawni’r cysylltiadau hyn, gallwn ddatblygu democratiaeth leol fywiog sy’n caniatáu i gymunedau ffynnu.

**Ein prif nod** yw hyrwyddo, diogelu, cefnogi a datblygu llywodraeth leol ddemocrataidd a buddiannau awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Byddwn yn cyflawni ein gweledigaeth drwy**

- Hybu rôl ac amlygrwydd cynghorwyr ac arweinwyr cynghorau
- Sicrhau disgresiwn lleol mwyaf mewn deddfwriaeth neu ganllawiau statudol
- Cefnogi a sicrhau cyllid cynaliadwy a hirdymor i gynghorau
- Hybu gwelliant o dan arweiniad sector
- Annog democratiaeth leol fywiog, sy’n hybu mwy o ddemocratiaeth
- Cefnogi Cynghorau i reoli eu gweithlu yn effeithiol

**Swyddogion monitro ddylai lywio'r gweithdy – ar y cyd ag uwch gynghorydd profiadol lle bo modd. Defnyddiwch y deunydd ynghyd â fideo'r Ombwdsmon. Dylai fod gan y cynghorwyr gopïau o gôd ymddwyn y cyngor a chanllawiau'r Ombwdsmon.**

**Hyd y gweithdy: 2 awr a hanner, heb gynnwys yr egwyl**

**Dyma ddiben y sesiwn:**

Rhoi i'r cynghorwyr grynodeb o'r fframwaith moesegol a'r côd ymddwyn

**Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r cynghorwyr allu:**

- Deall pwysigrwydd y fframwaith moesegol a'r gofyn iddyn nhw gadw ato yn ôl y côd ymddwyn
- Deall sut mae gweithredu yn ôl y côd, yn arbennig ynglŷn â datgan buddiannau
- Deall beth fyddai'n digwydd pe baen nhw'n torri'r côd
- Gwybod ble mae cynghorion a gwybodaeth ar gael

**Rhaglen:**

1. Cyflwyno pawb: Disgrifio'r rhaglen a'i hamcanion – 10 munud
2. Cyflwyno'r pwnc a'r holiadur (dim ond y cwestiynau) – 20 munud
3. Sleidiau 1-11 gan gynnwys atebion i'r holiadur – 40 munud
4. Egwyl
5. Sleidiau 12-18: Buddiannau ac ymarfer – 35 munud
6. Sleidiau 19-22: Penderfynu ymlaen llaw, torri'r côd a rhagor o wybodaeth. Rhaid cynnwys fideo'r Ombwdsmon – 45 munud

**Rhaglen**

| | | |
|---|---|---|
| Sleidiau 1 – 4 | Cyflwyniadau a Phwysigrwydd | 10 munud |
| Sleidiau 5 – 18 | Fframwaith moesegol, Côd ymddwyn, Buddiannau | 30 munud |
| Sleidiau 19 – 23 | Ymarfer ac Astudiaeth Achos | 20 munud |
| Sleidiau 24 – 29 | Dod i farn neu benderfyniad ymlaen llaw, Gogwydd a fideo Ombwdsmon | 15 munud |
| Ymarfer | (Dewisol) | 15 munud |

**Nodiadau ar gyfer sleidiau PowerPoint**

**Sleid 1: Teitl a chyflwyniad**
Ym myd llywodraeth leol, mae egwyddorion a safonau sy'n ategu'r modd mae cynghorwyr a swyddogion yn ymwneud â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn gofalu y bydd popeth wnewch chi'n adlewyrchu'n dda arnoch chi ac ar yr awdurdod. Bydd y gweithdy hwn yn eich helpu i ddeall y safonau hyn, sut dylech chi eu defnyddio a beth allai ddigwydd ichi os nad ydych chi'n cadw atyn nhw.

**Sleid 2: Amcanion Dysgu**
A chithau'n gynghorydd, bydd y modd mae pobl yn gweld eich ymddygiad yn effeithio ar eich gallu i gynrychioli byd llywodraeth leol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu. Rhaid i bobl fod yn hyderus eich bod yn gweithredu yn ôl y safonau uchel mae gyda nhw hawl i'w disgwyl gennych chi.

**Sleid 3: Canlyniadau i gynghorwyr**
Dyma ddyfyniadau o'r wasg ac o wefan cyngor dros y ddwy i dair blynedd diwethaf. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig ichi ddeall eich cyfrifoldebau yn y maes hwn er eich enw da chi ac un y cyngor. Efallai y bydd hwyluswyr am ychwanegu pigion eraill o'r wasg.
DS: (Dyfyniad o erthygl am Bowys ar wefan BBC Cymru yw'r cyntaf; daw'r ail o erthygl ar wefan Gogledd Swydd Henffordd yn 2016; a daw'r trydydd o bapur Newham Recorder yn 2016)

**Sleid 4 – Pam ei fod yn bwysig? Rydym eisiau osgoi…**

Os ewch chi ar Google fe welwch fod nifer o achosion ar draws Prydain lle mae Cynghorwyr wedi cael eu hymchwilio a'u gwahardd o ganlyniad i'w hymddygiad. Gall hyn gynnwys sylwadau a wnaed mewn cyfarfodydd, lluniau a rennir ar y cyfryngau cymdeithasol neu ddefnyddio eu rôl fel aelod etholedig er budd personol.

Rydym eisiau eich helpu chi i osgoi hyn, i osgoi ymchwiliad, a bodloni safonau disgwyliedig y bobl sydd wedi pleidleisio i chi fel eu cynrychiolydd.

O'r lluniau byddwch yn sylwi bod nifer o'r achosion hyn yn ymwneud â negeseuon neu weithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol. Cydnabyddir bod Twitter, Instagram a Facebook yn rhan gynyddol bwysig o rôl Aelod Etholedig – i helpu gyda'i ddefnydd mae CLlLC wedi creu canllawiau ar sut i'w ddefnyddio. (Rhannu'r ddolen ar ôl y sesiwn a nodi ei fod yn rhan o'r deunyddiau cynefino).
https://www.wlga.cymru/social-media-and-online-abuse

Yng Nghymru, efallai bydd rhai achosion yn cael eu cyfeirio at, a'u hymchwilio gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Er nad yw llawer o achosion yn arwain at gamau gweithredu pellach, maent yn cael eu cymryd o ddifri, yn gallu niweidio enw da ac yn cymryd amser oddi ar wasanaethu a chynrychioli eich cymuned.

Dyma ddwy enghraifft ddiweddar (gweler y manylion llawn isod er gwybodaeth):

**Cyngor Tref Pen-bre a Phorth Tywyn -**
Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn fod Aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad. Honnwyd na wnaeth yr Aelod ddangos parch ac ystyriaeth i eraill, a'i fod yn bwlio ac yn ymddwyn mewn ffordd a all gael ei ystyried fel dwyn anfri ar y Cyngor.
Dywedodd yr Aelod ei fod yn credu bod ei gamau gweithredu wedi'u cyfiawnhau ac ymddiheurodd os oedd ei bendantrwydd wedi ymddangos yn wahanol i'r Achwynydd
**Roedd yr Ombwdsmon yn ystyried bod ymateb yr Aelod a'i ymddiheuriad yn ddigonol i ddatrys y gŵyn.**
CoC-casebook-Full-year-ENG.pdf (ombudsman.wales)

**Cyngor Cymuned Sully a Lavernock**
Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn bod aelod wedi methu â chadw at y Cod Ymddygiad i aelodau etholedig. Honnwyd bod yr Aelod wedi cyhoeddi cyfres o negeseuon cyhoeddus, ar y llwyfan cyfryngau cymdeithasol Facebook, a all fod wedi niweidio enw da'r Cyngor. Canfu'r Ombwdsmon fod 3 neges cyhoeddus, dyddiedig rhwng 10 Ionawr a 11 Mawrth 2019, a oedd yn cyfeirio at wleidyddion benywaidd o broffil uchel, yn sarhaus heb reswm, a gellir ystyried ei fod wedi dwyn anfri ar Awdurdod neu Swyddfa'r Cynghorydd.
Cyfeiriodd yr Ombwdsmon ei adroddiad ymchwilio at y Panel Dyfarnu Cymru i'w ystyried
**Penderfyniad y Tribiwnlys: ei wahardd rhag bod neu ddod yn aelod o Gyngor Cymuned Sully a Lavernock neu unrhyw awdurdod perthnasol arall am 15 mis**
https://adjudicationpanel.gov.wales/sites/adjudicationpanel/files/2021-01/APW-Decision-Report-Baguley.pdf

**Sleid 5: Fframwaith moesegol**
Tarddiad: Adroddiad Pwyllgor Nolan (1997), *Standards in Public Life*, a bennodd fersiwn cyntaf y safonau hyn. Mae'r sleid hon yn dangos y fersiwn diweddaraf yn ôl Gorchymyn 'Ymddygiad Cynghorwyr' Cymru 2001, a oedd yn ychwanegu tri gofyniad ychwanegol i Gynghorwyr yng Nghymru (mewn print trwm)

Cyfeiriwch at yr atebion yn Atodiad 2 i ymhelaethu ar bob diffiniad

**Sleid 6: Eich cyfrifoldebau**
Mae gofynion statudol am y rhain. Sefydlodd Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000 fframwaith moesegol newydd. Yn ôl Gorchymyn 'Côd Ymddygiad Enghreifftiol' Cymru 2008, rhaid i bob awdurdod weithredu yn ôl cod ymddwyn sydd wedi'i seilio ar yr un gwladol.

Mae paragraff 6.1(c) y côd wedi'i ddileu erbyn hyn. Dyma'r paragraff oedd yn mynnu bod rhaid i aelod roi gwybod i'r PSOW a'r Swyddog Monitro am unrhyw ymddygiad gan aelod arall os oedd yn credu'n rhesymol bod yr ymddygiad yn torri'r côd. Dim ond i'r Swyddog Monitro y mae'n rhaid rhoi gwybod bellach, ond caiff aelod hysbysu'r PSOE os credir ei fod yn achos difrifol.

Mae paragraff 10(2)(b) y côd wedi'i ddileu. Dyma'r paragraff oedd yn nodi bod gennych fudd personol 'pe byddai rhywun yn gallu credu yn rhesymol fod eich rôl wedi'i heffeithio wrth ddod i benderfyniad, ar y mater o dan sylw, ar ran eich awdurdod yn gyffredinol ac wrth gynrychioli buddiannau'r etholwyr yn eich ward neu isadran etholiadol'.

**Sleid 7: Côd ymddwyn**
Wedi'i ategu gan y fframwaith moesegol.
Dylech chi atgoffa'r cynghorwyr am gynnwys côd ymddwyn yr awdurdod, gan roi copïau iddyn nhw lle bo angen.

Mae'r Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi:
Bod unigolyn sy'n aelod neu'n aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol ar adeg lle mae'r awdurdod yn mabwysiadu cod ymddygiad dan adran 51 am y tro cyntaf -
(a) yn gorfod, cyn diwedd y cyfnod o ddau fis, yn dechrau gyda'r dyddiad y mae'r cod ymddygiad yn cael ei fabwysiadu, gwneud ymrwymiad ysgrifenedig i'w awdurdod y byddai'n [F1 wrth wneud ei swyddogaethau] cadw at god ymddygiad yr awdurdod am y tro dan adran 51, ac
(b)os nad yw'n gwneud hynny, bydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig ar ddiwedd y cyfnod hwnnw.

Os nad ydych chi'n ei ddeall, holwch swyddog monitro'r awdurdod. Os nad ydych chi'n ei ddeall, holwch swyddog monitro'r awdurdod. Mae sawl cynghorydd yn credu mai dim ond pan fo'n cyflawni gwaith swyddogol y bydd y côd yn berthnasol. DYW HYNNY DDIM YN WIR.

**Sleid 8: Bydd y côd yn berthnasol pan foch chi…**

**Sleid 9: A hefyd…**
Pan nad ydych chi'n gweithredu'n gynghorydd.
**Rhaid atgoffa'r cynghorwyr mai dyma ateb i gwestiwn 6 yn yr holiadur.**

**Sleid 10-11: Rheolau cyffredinol y côd**
Rhowch i'r cynghorwyr gopi o ganllawiau'r Ombwdsmon i ymhelaethu ar y diffiniadau.
Rhowch yr **atebion i gwestiynau 2, 4 a 6** ac esbonio pa rannau o'r côd sydd wedi'u torri.

**Sleid 12: Buddiannau**

**Sleid 13-14: Buddiannau personol**
Cyfeiriwch y cynghorwyr at ganllawiau'r Ombwdsmon.
Rhowch yr **atebion i gwestiwn 3 yn yr holiadur**.
Amlinellwch weithdrefn eich awdurdod ar gyfer cofrestru buddiannau.

**Sleid 15: 'Rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda'**
Cyfeiriwch y cynghorwyr at ganllawiau'r Ombwdsmon

**Sleid 16: Beth mae rhaid ei wneud os oes budd personol gyda chi?**

**Sleid 17: Buddiannau niweidiol**
Gofynnwch i'r cynghorwyr roi rhagor o enghreifftiau o fuddiannau personol

**Sleid 18: Beth mae rhaid ei wneud os oes gyda chi fuddiannau niweidiol?**

**Sleid 19: Ymarfer ynglŷn â buddiannau – Atodiad 3**
Ar ôl lledaenu'r deunydd, gofynnwch i'r cynghorwyr weithio mewn grwpiau neu barau i ystyried a oes budd, natur y budd hwnnw a'r camau y dylai'r cynghorydd ei gymryd.
Mae rhai atebion wedi'u hawgrymu yn **Atodiad 4.**

**Sleid 20 – 23: Astudiaeth Achos Datgan Cysylltiad**
Daeth yr astudiaeth achos hon o Lyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gweler **Atodiad 5** am y manylion llawn a'r ddolen i ffynhonnell yr astudiaeth achos.

**Sleid 24: Penderfynu ymlaen llaw a phatrymau penderfynu**

**Diffiniadau yn ôl gwefan Bwrdd Safonau Lloegr**

Mae pob hawl gan gynghorwyr i dueddu i fod o farn benodol. Gall y farn yma fod yn un bendant ac mae rhwydd hynt ganddynt ei mynegi'n gyhoeddus. Gallen nhw hyd yn oed fod wedi'u hethol oherwydd eu barn ynghylch y mater penodol. Gallen nhw fod o blaid neu yn erbyn safbwynt penodol e.e. cais cynllunio.

Rhaid i bob cynghorydd dderbyn, fodd bynnag, y gallai glywed yn ystod y drafodaeth am y pwnc rywbeth allai newid ei feddwl o ran sut mae'n bwriadu pleidleisio. Ar yr amod ei fod yn fodlon cadw meddwl agored amdano, mae ganddo hawl i gymryd rhan yn y pleidleisio.

**Beth yw penderfynu ymlaen llaw neu ogwydd?**

Ystyr penderfynu ymlaen llaw yw nad yw cynghorydd yn fodlon ystyried unrhyw ddadl ar wahân i'w safbwynt ei hun am y mater mae'n penderfynu arno megis cais am ganiatâd cynllunio. Bydd y cynghorydd yn diystyru pob dadl arall wrth ddod i benderfyniad.

Pan fo cynghorwyr yn ymwneud â phroses benderfynu, dylen nhw osgoi cyfleu'r argraff eu bod wedi penderfynu eisoes sut byddan nhw'n pleidleisio yn y cyfarfod ac na all neb newid eu barn. Gallan nhw roi'r argraff honno mewn nifer o ffyrdd megis sylwadau yn y wasg, yr hyn ddywedon nhw mewn cyfarfodydd a'r hyn ysgrifennon nhw mewn llythyrau.

Fydd aelodaeth o gorff megis elusen ddim yn gyfystyr a gogwydd o'r fath fel arfer, oni bai bod canlyniad y broses benderfynu mae'r cynghorydd yn ymwneud â hi'n bwysig i'r corff hwnnw am ryw reswm neu fod y penderfyniad yn un lled gyfreithiol ei natur.

Gogwydd:-

Kelton v Wiltshire [2015] EWHC 2853 (Gweinyddol);

Roedd y datblygwyr wedi nodi cymdeithas tai leol fel partner posibl i gynnig tai fforddiadwy yn rhan o ddatblygiad arfaethedig. Roedd un o'r cynghorwyr (M) oedd yn rhan o'r pwyllgor cynllunio dilynol hefyd yn un o gyfarwyddwr y gymdeithas. Fe eglurodd ei fod yn aelod o

fwrdd y gymdeithas, ond penderfynodd bleidleisio ynghylch y cais cynllunio gan mai partner arfaethedig oedd y gymdeithas yn hytrach na'r corff oedd yn cyflwyno'r cais. Cymeradwywyd y bleidlais o drwch blewyn (un bleidlais). Pe byddai wedi penderfynu peidio â phleidleisio, byddai'r cais wedi'i wrthod. Aeth y datblygwyr ati wedi hynny i ddewis y gymdeithas i gynnig y tai fforddiadwy ar gyfer y prosiect.

Rhoddodd y ffaith fod M wedi cymryd rhan yn y cyfarfod cynllunio yr argraff o ogwydd posibl. Doedd dim dwywaith y byddai cymeradwyo'r cais wedi bod o fudd i'r gymdeithas ac M fel un o'i chyfarwyddwyr. Roedd y gymdeithas wedi ymrwymo amser, adnoddau ac arbenigedd wrth weithio gyda'r datblygwyr ar y tai fforddiadwy. Go brin y byddai wedi gwneud hynny oni bai ei bod yn credu y byddai'n cael cytundeb ganddyn nhw wedi i'r cais cynllunio gael ei gymeradwyo. Gellir cael yr argraff o ogwydd posibl hyd yn oed mewn achos lle nad oedd cynghorydd wedi pleidleisio. Roedd y llys/barnwr yn achos *Darker Enterprises v Dacorum BC [1992] C.O.D. 465* o’r farn bod y bleidlais yn ymwneud â buddiannau preifat M, ac na ddylai fod wedi cymryd rhan yn y cyfarfod. Yn unol â hynny, cafodd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio ei ddileu.

**Dod i’r penderfyniad**

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y cynghorwyr sy’n ymwneud â’r penderfyniad a’r rhai sy’n ceisio dylanwadu arno. Bydd y cynghorwyr nad ydyn nhw’n ymwneud â’r penderfyniad yn cael mynegi eu barn am y canlyniad yr hoffen nhw ei weld, fel arfer.

Wrth ystyried a oes argraff bod penderfyniad ymlaen llaw neu ogwydd, dylai’r cynghorwyr sy’n gyfrifol am ddod i’r penderfyniad ofyn y cwestiwn hwn: Fyddai rhywun teg ei feddwl a chanddo’r wybodaeth berthnasol yn dod i’r casgliad, ar ôl ystyried y ffeithiau i gyd, fod gwir posibilrwydd bod y cynghorydd wedi dod i benderfyniad ymlaen llaw neu fod ganddo ogwydd?

O ofyn y cwestiwn hwnnw, fodd bynnag, dylen nhw gofio bod cynghorydd yn cael arddel rhyw safbwynt ar yr amod ei fod yn fodlon ystyried pob dadl arall am y pwnc dan sylw.

At hynny, mae argraff o’r fath yn llai pwysig pan nad yw’r penderfyniad yn un cyfreithiol, ac mae penderfyniadau am ganiatâd cynllunio’n weinyddol ei natur, nid cyfreithiol. Felly, bydd cynghorwyr yn cael ymddangos eu bod yn gryf o blaid penderfyniad neu’n ei erbyn.

**Sleid 25**

Kelton v Wiltshire [2015] EWHC 2853 (Gweinyddol);

Roedd y datblygwyr wedi nodi cymdeithas tai leol fel partner posibl i gynnig tai fforddiadwy yn rhan o ddatblygiad arfaethedig. Roedd un o'r cynghorwyr (M) oedd yn rhan o'r pwyllgor cynllunio dilynol hefyd yn un o gyfarwyddwr y gymdeithas. Fe eglurodd ei fod yn aelod o fwrdd y gymdeithas, ond penderfynodd bleidleisio ynghylch y cais cynllunio gan mai partner arfaethedig oedd y gymdeithas yn hytrach na'r corff oedd yn cyflwyno'r cais. Cymeradwywyd y bleidlais o drwch blewyn (un bleidlais). Pe byddai wedi penderfynu peidio

â phleidleisio, byddai'r cais wedi'i wrthod. Aeth y datblygwyr ati wedi hynny i ddewis y gymdeithas i gynnig y tai fforddiadwy ar gyfer y prosiect.

Rhoddodd y ffaith fod M wedi cymryd rhan yn y cyfarfod cynllunio yr argraff o ogwydd posibl. Doedd dim dwywaith y byddai cymeradwyo'r cais wedi bod o fudd i'r gymdeithas ac M fel un o'i chyfarwyddwyr. Roedd y gymdeithas wedi ymrwymo amser, adnoddau ac arbenigedd wrth weithio gyda'r datblygwyr ar y tai fforddiadwy. Go brin y byddai wedi gwneud hynny oni bai ei bod yn credu y byddai'n cael cytundeb ganddyn nhw wedi i'r cais cynllunio gael ei gymeradwyo. Gellir cael yr argraff o ogwydd posibl hyd yn oed mewn achos lle nad oedd cynghorydd wedi pleidleisio. Roedd y llys/barnwr yn achos*Darker Enterprises v Dacorum BC [1992] C.O.D. 465* o'r farn bod y bleidlais yn ymwneud â buddiannau preifat M, ac na ddylai fod wedi cymryd rhan yn y cyfarfod. Yn unol â hynny, cafodd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio ei ddileu.

**Sleid 26: Trefniadau cadw llygad**
**Dyma'r ateb i gwestiwn 8.**
Defnyddiwch yr ateb sydd yn **Atodiad 2** i esbonio rolau'r amryw gyrff.

**Sleid 27 a 28: Pe baech chi'n torri'r côd...**
Dyma'r weithdrefn pe bai rhywun yn mynd yn groes i'r côd.

Beth rydym ni'n ei wneud ar ôl cael eich cwyn am ymddygiad aelod o awdurdod lleol (ombwdsmon.cymru)

Os gwneir cyfeiriad at y pwyllgor safonau, bydd cwyn yn cael ei ystyried gan y pwyllgor ar gyfer datrysiad lleol. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio fel rheol ar gyfer cwynion lefel isel. Mae'n werth nodi bod gan y pwyllgor safonau ddyletswydd i adrodd i'r Cyngor bob blwyddyn a gall unrhyw gwynion, tystiolaeth o ymddygiad gwael cyson neu fethiant arweinwyr i reoli eu grŵp, gael ei drafod a'i ddadlau mewn fforwm cyhoeddus.

**Efallai byddwch eisiau dangos y fideo canlynol yn lle / neu'n ogystal â chynnwys sleidiau 27 a 28**
Nick Bennett Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. - YouTube

**Sleid 29: Ymarfer (Atodiad 1)**
Os oes amser cwblhewch hwn mewn grwpiau - os nad, rhowch hwn fel gweithgaredd i fynd gyda chi. Efallai hoffech gwblhau hwn yn ystod yr hyfforddiant i brofi gwybodaeth flaenorol.

Bydd cynghorwyr yn gwneud yr ymarfer mewn grwpiau gan ddefnyddio copïau o **Atodiad 1**. Gadewch i bob grŵp drafod y mater a rhoi ateb wedyn. **Peidiwch â rhoi'r atebion (Atodiad 2)** yn syth – bydd y nodiadau isod yn dweud pryd y dylech chi eu rhoi. Ar ôl rhoi pob ateb, dylech chi gyfeirio yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol. Rhowch **Atodiad 2** i'r cynghorwyr ddiwedd y sesiwn fel y bydd gyda nhw rywbeth i gyfeirio ato yn y dyfodol.

**Sleid 30: Annog y cynghorwyr eto i holi swyddog monitro'r awdurdod os nad ydyn nhw'n siŵr beth yw ymddygiad moesegol!**

**Atodiad 1**

**Holiadur**

Mae'r atebion mewn cyflwyniad PowerPoint sy'n ymhelaethu ar y manylion a'r cefndir – gall y cynghorwyr gadw'r cyflwyniad a chyfeirio ato yn ôl yr angen.

Cwestiwn 1

Beth yw'r 10 egwyddor mae côd ymddwyn y cynghorwyr wedi'i seilio arnyn nhw?

Cwestiwn 2

Mae'r cyngor yn cynnal trafodaethau gydag adeiladwr am gynllun adfywio sy'n ymwneud â chodi canolfan hamdden, tai a siopau mewn dau ward. Mae cyfarwyddwr rheoli'r cwmni wedi gwahodd aelodau'r pwyllgor craffu dros adfywio (mae rhai ohonyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor cynllunio, hefyd) a rhai o swyddogion adran adfywio'r cyngor i achlysur lle bydd yn cyflwyno cynigion y cwmni mewn ystafell yn stadiwm un o dimau uwch gynghrair pêl-droed Lloegr. Bydd champagne, a chyfle i wylio gêm bêl-droed wedyn. Ddylen nhw fynd?

Cwestiwn 3

Mae cynghorydd yn ymgyrchwr ym mudiad Greenpeace ac yn aelod o bwyllgor cynllunio'r cyngor. Mae'r cyngor o blaid yr atomfa leol ac yn cynnal trafodaethau i ddatblygu'r safle fel y gall brosesu gwastraff niwclear o atomfeydd eraill. Oes gan y cynghorydd unrhyw fuddiannau ynglŷn â'r trafodaethau hynny. Os felly, beth yw eu natur?

Cwestiwn 4

Mae dyn yn awyddus i symud ei deulu i dŷ cyngor sy'n nes at aelodau oedrannus o'u teulu, a hoffai fynd ati i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Mae'n siarad â chynghorydd y mae'n ei adnabod gan eu bod ill dau yn aelodau o'r tîm pêl-droed lleol. Mae'r cynghorydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Craffu ar Dai. Mae'r cynghorydd yn addo mynd ar ôl y mater. Swyddogion dyrannu tai, nid y cynghorwyr, sy'n prosesu ceisiadau penodol am dai. Mae'r cynghorydd yn dweud wrth un o swyddogion tai y cyngor i symud y cais i frig y rhestr aros. Mae'r ardal y mae'r teulu am symud iddi yn rhan o ward y cynghorydd.

Ydy'r cynghorydd yn gweithredu'n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

Cwestiwn 5

Mae aelod o'r cyhoedd wedi ysgrifennu llythyr i gwyno am gynghorydd. Dywedodd ei bod yn gweithio mewn digwyddiad nos Sadwrn diwethaf mewn bar a chlwb criced pan regodd dyn tuag ati a'i galw'n enw sarhaus. Wrth adael y digwyddiad, ciciodd y dyn y drws gan beri i'r gwydr dorri ym mhanel y drws. Roedd rhywun arall welodd yr hyn a ddigwyddodd wedi dweud wrthi bod y dyn yn gynghorydd lleol.

Ydych chi o’r farn bod côd ymddwyn y cyngor wedi’i dorri? Os felly, beth fyddai ymateb priodol i ymddygiad o’r fath?

Cwestiwn 6.

Mae cynghorydd wedi adeiladu cytiau ar gyfer 20 o gŵn yn islawr ei chartref heb gael caniatâd cynllunio. Rhoddodd hysbyseb yn y papur lleol i ddweud y byddai'r cytiau ar agor ym mis Mawrth a bod ganddi drwydded lawn ar eu cyfer. Nid oedd hi wedi cael trwydded pan osododd yr hysbyseb. Aeth ati i gyflwyno cais cynllunio ym mis Gorffennaf. Ni wnaeth sôn o gwbl yn ei chais ei bod yn gynghorydd.

Ym mis Medi, cyn cyfarfod pwyllgor cynllunio'r cyngor, fe anfonodd neges ebost at aelod o'r pwyllgor ynghylch y cais yn gofyn iddo ei gefnogi. Aeth i gyfarfod y pwyllgor cynllunio a siaradodd cyn i'w chais gael ei drafod, ond arhosodd yn y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth am ei chais.

Ydy’r cynghorydd wedi gweithredu’n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

Cwestiwn 7

Allwch chi ddisgrifio prosesau’r cyngor ar gyfer?

1. Datgan a chofrestru buddiannau cynghorwyr.
2. Derbyn rhoddion neu groeso sydd wedi’u cynnig i gynghorwyr.

Cwestiwn 8

Allwch chi esbonio rolau’r canlynol?

1. Swyddog monitro
2. Pwyllgor moeseg a safonau
3. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
4. Panel Dyfarnu Cymru

**Atodiad 2**

**Atebion i'r holiadur**

<u>Cwestiwn 1</u>
Beth yw'r 10 egwyddor mae côd ymddwyn y cynghorwyr wedi'i seilio arnyn nhw?

<u>Ateb</u>
Man cychwyn llawer o'r gwaith oedd Pwyllgor Nolan dros Safonau Bywyd Cyhoeddus ym 1997. Yn sgîl argymhellion y pwyllgor, mabwysiadodd byd llywodraeth leol fframwaith moesegol newydd. Mae'r fersiwn diweddaraf yng Ngorchymyn 'Egwyddorion Ymddygiad Cynghorwyr' Cymru 2001.

Dyma'r 10 egwyddor gyffredinol ynglŷn ag ymddygiad cynghorwyr:

1. Bod yn anhunanol

   Dim ond er lles y cyhoedd mae rhaid i gynghorwyr weithredu. Ddylen nhw byth defnyddio eu statws yn gynghorwyr i gael mantais amhriodol iddyn nhw eu hunain na hwyluso mantais neu anfantais i bobl eraill.

2. Gonestrwydd

   Rhaid i bob cynghorydd ddatgan buddiannau preifat sy'n berthnasol i'w gorchwylion cyhoeddus a gofalu na fydd unrhyw wrthdaro sy'n amharu ar les y cyhoedd.

3. Uniondeb a phriodoldeb

   Dylai cynghorwyr ofalu eu bod mewn sefyllfa lle na all neb godi amheuon ynglŷn â'u gonestrwydd am fod arnyn nhw ddyled (ariannol neu o natur arall) i bobl neu sefydliadau allai geisio dylanwadu arnyn nhw wrth gyflawni eu dyletswyddau. Fe ddylai cynghorwyr osgoi ymddygiad o'r fath bob amser.

4. Dyletswydd i hybu'r gyfraith

   Rhaid i gynghorwyr hybu'r gyfraith a gweithredu bob amser yn ôl yr ymddiried mae pobl wedi'i roi ynddyn nhw.

5. Gwarchod

   Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, dylai cynghorwyr ofalu eu bod yn defnyddio adnoddau'r awdurdodau mewn modd cyfreithlon a darbodus.

6. Penderfynu'n wrthrychol

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau megis penodi pobl, rhoi cytundebau neu argymell pobl ar gyfer anrhydeddau a buddion, dylai cynghorwyr ddod i benderfyniadau yn ôl y rhinweddau. Er y dylen nhw roi pob ystyriaeth i gyngor arbenigol swyddogion a sylwadau pobl eraill gan gynnwys eu cylchoedd gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw gofalu pa safbwynt sydd i'w arddel a, lle bo'n briodol, sut i bleidleisio am bwnc.

7. Cydraddoldeb a pharch

   Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, dylai cynghorwyr roi ystyriaeth briodol i angen hybu cyfleoedd cyfartal i ferched a dynion beth bynnag fo eu tras, eu hanableddau, eu tueddfryd rhywiol, eu hoedran neu eu crefydd. Rhaid parchu pobl eraill ac ystyried eu hanghenion.

8. Agwedd agored

   Dylai cynghorwyr fod mor agored ag y bo modd am yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r hyn mae'r awdurdod yn ei wneud. Dim ond yn ôl gofynion y gyfraith y dylen nhw ddatgelu gwybodaeth.

9. Atebolrwydd

   Mae'r cynghorwyr yn atebol i'r etholwyr a'r bobl i gyd am yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r modd maen nhw'n cyflawni eu cyfrifoldebau. Dylen nhw fod yn fodlon cael eu harchwilio fel y bo'n briodol yn ôl eu cyfrifoldebau.

10. Arwain

   Dylai cynghorwyr hybu a hwyluso'r egwyddorion hyn, gan arwain trwy esiampl fel y bydd pobl yn hyderus yn eu rôl nhw ac yn yr awdurdod. Ddylen nhw ddim gofyn i swyddogion statudol a staff eraill yr awdurdod fod yn unochrog nac yn anonest.

Cwestiwn 2

Mae'r cyngor yn cynnal trafodaethau gydag adeiladwr am gynllun adfywio sy'n ymwneud â chodi canolfan hamdden, tai a siopau yn wardiau'r cyngor. Mae cyfarwyddwr rheoli'r cwmni wedi gwahodd aelodau'r pwyllgor craffu dros adfywio (mae rhai ohonyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor cynllunio, hefyd) a rhai o swyddogion adran adfywio'r cyngor i achlysur lle bydd yn cyflwyno cynigion y cwmni mewn ystafell yn stadiwm un o dimau uwch gynghrair pêl-droed Lloegr. Bydd champagne, a chyfle i wylio gêm bêl-droed wedyn. Ddylen nhw fynd?

Ateb

Dylai'r cynghorwyr (ac, yn wir, y swyddogion) wrthod y gwahoddiad. O'i dderbyn, gallen nhw fynd yn groes i baragraff 6 y côd – 'ddylech chi ddim ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i bobl gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod'. Ym marn y cyhoedd, mae'r cwmni adeiladu'n ceisio dylanwadu ar benderfyniad y cyngor am y cytundeb

trwy'r croeso a gewch chi. Dim ond materion cynllunio y dylai aelodau pwyllgor cynllunio eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ond, yn yr achos hwn, gallai pobl ddod i'r casgliad bod haelioni'r cwmni adeiladu wedi dylanwadu arnyn nhw, hefyd.

At hynny, dylai'r cynghorwyr dynnu sylw'r swyddog monitro at y gwahoddiad, a'r ffaith eu bod wedi'i wrthod, rhag ofn y gallai fod yn bwnc llosg rywbryd wedyn.

Pe bai cynghorydd wedi derbyn gwahoddiad o'r fath er gwaetha'r cynghorion, byddai budd niweidiol o ran y cwmni hwnnw ac unrhyw benderfyniadau am y cytundebu neu'r cynllun adeiladu.

Gallai gwerth y pecyn croeso fod dros yr uchafswm mae'ch awdurdod yn ei ganiatáu ac, felly, byddai rhaid gofyn i'r swyddog monitro ei gynnwys yng nghofrestr y rhoddion a'r croeso. Cyfrifoldeb y cynghorydd yw gwybod faint yw'r uchafswm.

Cwestiwn 3

Mae cynghorydd yn ymgyrchwr ym mudiad Greenpeace ac yn aelod o bwyllgor cynllunio'r cyngor. Mae'r cyngor o blaid yr atomfa leol ac yn cynnal trafodaethau i ddatblygu'r safle fel y gall brosesu gwastraff niwclear o atomfeydd eraill. Oes gan y cynghorydd unrhyw fuddiannau ynglŷn â'r trafodaethau hynny. Os felly, beth yw eu natur?

Ateb:

Yn ôl pob tebyg, bydd gan y cynghorydd fudd personol yn ôl paragraff 10 (2)(viiii)(cc) am ei fod yn aelod o fudiad Greenpeace (corff mae'i brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn y cyhoedd a pholisïau gwladol). Dylai'r cynghorydd gyfeirio at y budd hwnnw, yn ôl paragraffau 11 (2)(a) a (b) wrth gyflwyno unrhyw dystiolaeth ar lafar neu trwy lythyr, er ei bod yn annhebygol y byddai'r budd yn datblygu'n un niweidiol. Byddai rhaid i'r pwyllgor cynllunio ei ystyried wrth ddod i unrhyw benderfyniad am y safle. Nid Greenpeace fyddai'r ceisydd. Fyddai dim effaith ar ei sefyllfa ariannol nac, yn ôl y dyb, ar les y cynghorydd o dan sylw. Mae Greenpeace yn tueddu i fynegi barn am drefniadau gwladol ar gyfer cael gwared ar wastraff, yn hytrach na rhai penodol. Felly, mae'n debygol y byddai'r budd yn un personol, nid niweidiol. Rhaid ystyried yr achos yn ofalus, fodd bynnag.

At hynny, rhaid tynnu sylw'r swyddog monitro at y ffaith bod y cynghorydd yn aelod o'r mudiad a gofyn iddo ei nodi yng nghofrestr buddiannau'r cynghorwyr achos mai un o brif ddibenion Greenpeace yw dylanwadu ar farn y cyhoedd a pholisïau gwladol.

Cwestiwn 4

Mae dyn yn awyddus i symud ei deulu i dŷ cyngor sy'n nes at aelodau oedrannus o'u teulu, a hoffai fynd ati i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Mae'n siarad â chynghorydd y mae'n ei adnabod gan eu bod ill dau yn aelodau o'r tîm pêl-droed lleol. Mae'r cynghorydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Craffu ar Dai. Mae'r cynghorydd yn addo mynd ar ôl y mater. Swyddogion dyrannu tai, nid y cynghorwyr, sy'n prosesu ceisiadau penodol am dai. Mae'r cynghorydd yn

dweud wrth un o swyddogion tai y cyngor i symud y cais i frig y rhestr aros. Mae'r ardal y mae'r teulu am symud iddi yn rhan o ward y cynghorydd.

Ydy'r cynghorydd yn gweithredu'n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

Ateb:

Mae modd torri'r côd mewn tair ffordd yma.

1. 4(d) Ddylech chi ddim gwneud unrhyw beth sy'n amharu ar amhleidioldeb y rhai sy'n gweithio i'r awdurdod, neu ar ei ran, nac unrhyw beth allai amharu arno.
2. 6(1)(a) Ddylech chi ddim ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i bobl gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod.
3. 7(a) Yn eich gwaith swyddogol a'r tu allan iddo, ddylech chi ddim defnyddio'ch statws yn amhriodol er mantais i chi neu rywun arall, na chreu/osgoi unrhyw anfantais allai effeithio arnoch chi neu rywun arall.

   At hynny, mae'n bosibl bod y cynghorydd wedi methu â datgan budd personol sy'n debygol o fod yn niweidiol gan ei fod yn adnabod y dyn o dan sylw. Gallai hyn fod yn berthnasol i'r amod am rywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, a byddai rhaid i'r cynghorydd ei ystyried yn ofalus.

   Nid yw'n dderbyniol i unrhyw gynghorydd ofyn am ffafriaeth i etholwr drwy ddweud wrth swyddog tai bod yn rhaid iddo flaenoriaethu cais penodol. Er ei bod yn briodol i bob cynghorydd dynnu sylw'r swyddogion perthnasol at bryderon pobl ei ward a gofalu bod y prosesau'n mynd yn eu blaen yn brydlon ac ati, mae'n annerbyniol ymyrryd mewn proses o'r fath am ei bod yn tanseilio'r blaenoriaethau y cytunodd y cyngor arnyn nhw (sy'n rhan annatod o weithdrefnau eraill) ac yn peri i'r cynghorydd dan sylw dorri'r côd ymddwyn. Yn ogystal, wrth gysylltu â swyddog ynghylch unrhyw fater, rhaid i'r cynghorydd gofio bod rhaid iddo ddatgelu unrhyw fuddiant personol sy'n berthnasol.

Cwestiwn 5

Mae aelod o'r cyhoedd wedi ysgrifennu llythyr i gwyno am gynghorydd. Dywedodd ei bod yn gweithio mewn digwyddiad nos Sadwrn diwethaf mewn bar a chlwb criced pan regodd dyn tuag ati a'i galw'n enw anghwrtais. Wrth adael y digwyddiad, ciciodd y dyn y drws gan beri i'r gwydr dorri ym mhanel y drws. Roedd rhywun arall welodd yr hyn a ddigwyddodd wedi dweud wrthi bod y dyn yn gynghorydd lleol.

Ydych chi o'r farn bod côd ymddwyn y cyngor wedi'i dorri? Os felly, beth fyddai ymateb priodol i ymddygiad o'r fath?

Ateb

Mae'r côd ymddwyn yn berthnasol i gynghorydd pan fo'n cyflawni gwaith yr awdurdod, yn mynychu cyfarfodydd yr awdurdod, yn gweithredu ar ran yr awdurdod, yn honni ei fod yn gweithredu ar ran yr awdurdod neu'n cyfleu'r argraff ei fod yn gweithredu ar ei ran.

Mae'r côd yn effeithio ar gynghorwyr bob amser ac ym mhob sefyllfa, fodd bynnag, o ran paragraff 6 (1)(a) – ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i rywun gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod – a pharagraffau 7 (a) a (b) ynglŷn â defnyddio'ch statws er mantais i chi neu rywun arall/er anfantais i rywun arall, defnyddio adnoddau'r awdurdod yn amhriodol ac ati.

Mae'n amlwg yma fod yr ymddygiad yn dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod, yn groes i baragraff 6.

Gallai fod yn well gan y sawl gyflwynodd y gwyn pe bai'r swyddog monitro'n ymdrin â'r achos yn anffurfiol. Byddai'r rhaid i'r ddwy ochr gytuno ar hynny, fodd bynnag, achos na fyddai'r cynghorydd yn cael cosb. Dim ond pe bai ymddiheuriad yn dderbyniol y byddai hynny'n briodol neu, o bosibl, pe bai'r cynghorydd yn cytuno i gael rhagor o hyfforddiant am ymddygiad gweddus yn ôl y côd.

Mae cyhuddiad o ddifrodi yn yr achos hwn, fodd bynnag, am fod y gwydr yn nrws y clwb criced wedi'i dorri. Fe allai'r sawl gyflwynodd y gwyn fynd i'r gyfraith ynglŷn â hynny, a dewis cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon yn hytrach na chytuno i'r mater gael ei ddatrys yn anffurfiol.

Cwestiwn 6

Mae cynghorydd wedi adeiladu cytiau ar gyfer 20 o gŵn yn islawr ei chartref heb gael caniatâd cynllunio. Rhoddodd hysbyseb yn y papur lleol i ddweud y byddai'r cytiau ar agor ym mis Mawrth a bod ganddi drwydded lawn ar eu cyfer. Nid oedd hi wedi cael trwydded pan osododd yr hysbyseb. Aeth ati i gyflwyno cais cynllunio ym mis Gorffennaf.

Ym mis Medi, cyn cyfarfod pwyllgor cynllunio'r cyngor oedd am drafod cais y cynghorydd, fe anfonodd neges ebost at aelod o'r pwyllgor ynghylch y cais yn gofyn iddo ei gefnogi. Aeth i gyfarfod y pwyllgor cynllunio a siaradodd am dair munud cyn i'w chais gael ei drafod, ac arhosodd yn y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth am ei chais.

Ydy’r cynghorydd wedi gweithredu’n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

(1) Yn groes i baragraff 6(1)(a) y côd (Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i bobl gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod), aeth y cynghorydd ati i gynnal y gwaith adeiladu yn ei chartref cyn cyflwyno cais cynllunio.

(2) Yn groes i baragraffau 10(1) y côd (rhaid ystyried a oes gennych fudd personol ym mhob achos), ni wnaeth y cynghorydd ystyried a oedd ganddi fudd personol yn y cais cynllunio nac ystyried a ddylai ddatgelu'r budd yma pan anfonodd neges ebost at aelod o'r pwyllgor cynllunio ynghylch y cais o dan sylw.

(3) Yn groes i baragraffau 11(2)(a) y côd ymddwyn (Os oes gennych fudd personol yn unrhyw un o faterion eich awdurdod ac rydych yn cyflwyno deunydd ysgrifenedig (boed trwy lythyr, ffacs neu fath arall o gyfathrebu electronig) am y mater hwnnw i gynghorydd neu un o swyddogion eich awdurdod, dylech roi manylion am y budd yma yn y deunydd ysgrifenedig), ni roddodd y cynghorydd fanylion am ei budd personol yn ei chais cynllunio na'i deunydd ysgrifenedig yn ei neges ebost.

(4) Yn groes i baragraff 14(1)(c) (peidio â ddylanwadu ar y mater) a / neu baragraff 14(1)(d) y côd ymddwyn (peidio â chyflwyno deunydd ysgrifenedig am y mater), ceisiodd y cynghorydd ddylanwadu ar benderfyniad am ei chais cynllunio drwy anfon neges ebost at y cynghorydd a ystyriodd y cais yn rhinwedd ei rôl fel aelod o'r pwyllgor cynllunio (er bod ganddi fudd personol yn y cais o dan sylw yn ogystal â budd niweidiol oherwydd paragraff 12 (1) y côd ymddwyn)

(5) Yn groes i baragraff 6(1)(a) y côd ymddwyn, hysbysebodd y cynghorydd y cytiau fel rhai trwyddedig ond nid oedd hynny'n wir. Felly, ni wnaeth roi darlun cywir o'r sefyllfa.

(6) Gallai'r cynghorydd fod wedi cael yr hawl i siarad yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio a chyflwyno deunydd ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod yma os oedd gan rywun hawl i gyflwyno sylwadau, ond ni fyddai wedi cael ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor heb ddatgan y budd yma. Dylai hi hefyd fod wedi datgan ei budd yn y cyfarfod cyn iddi siarad ac wedyn gadael y cyfarfod wedi iddi siarad.

Cwestiwn 7

Allwch chi ddisgrifio prosesau’r cyngor ar gyfer:

1. Datgan a chofrestru buddiannau cynghorwyr.
2. Derbyn rhoddion neu groeso sydd wedi’u cynnig i gynghorwyr.

Ateb

Mae'r gyfraith, a chôd ymddwyn y cyngor, yn mynnu i gynghorwyr ddatgan buddiannau personol. Rhaid cofnodi rhai buddiannau personol yn y gofrestr gyhoeddus statudol cyn pen 28 diwrnod ar ôl i gynghorydd gael ei ethol neu ei benodi i swydd. Rhaid diweddaru'r gofrestr cyn pen 28 diwrnod pan fo unrhyw newidiadau.

Gallech chi fod yn rhydd rhag gorfod datgelu 'gwybodaeth ddadleuol', ond dylech chi holi'r swyddog monitro am hynny. Bydd y swyddog monitro'n anfon gwybodaeth am y ffurflen berthnasol at y cynghorwyr ac yn eu hatgoffa'n rheolaidd i ddiweddaru'r gofrestr.

Mae'r cyhoedd yn cael gweld cynnwys y gofrestr gyhoeddus.

Ar wahân i hynny, wrth gyfathrebu ar lafar a thrwy lythyr yng nghyfarfodydd y cyngor, mae gofyn i gynghorwyr ddatgan buddiannau personol a niweidiol sy'n berthnasol i'r hyn sy'n cael ei drafod – boed drafodaeth lafar neu ysgrifenedig neu'n rhan o benderfyniadau pwyllgorau neu gyfarfodydd eraill. Bydd y cynghorwyr a'r swyddogion perthnasol yn nodi buddiannau o'r fath, a byddan nhw'n cael eu crybwyll yng nghofnodion y cyfarfodydd.

Mae'r swyddog monitro'n cadw cofrestr gyhoeddus am roddion a chroeso mae cynghorwyr wedi'u derbyn, hefyd. Rhaid cofrestru unrhyw roddion neu groeso gwerth dros [y lefel mae'r awdurdod wedi'i phennu] ar hyn o bryd. [Gallai pwyllgor moeseg a safonau rhai awdurdodau fod wedi nodi y byddai'n dda pe bai cynghorwyr yn tynnu sylw'r swyddog monitro at yr hyn maen nhw wedi'i wrthod hefyd, i osgoi unrhyw gyhuddiadau wedyn].

Cwestiwn 8

Allwch chi esbonio rolau'r canlynol?

1. Swyddog monitro
2. Pwyllgor moeseg a safonau
3. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
4. Panel Dyfarnu Cymru

Ateb

1. Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) benodi swyddog monitro. Y swyddog monitro sy'n gyfrifol am gynnal safonau moesegol a chynghori a hyfforddi cynghorwyr am y côd ymddwyn. Mae'n helpu pwyllgor safonau'r cyngor, hefyd. At hynny, mae'n gyfrifol am gynghori a hyfforddi aelodau cynghorau cymunedol am y côd ymddwyn. Ynghyd â phwyllgor moeseg a safonau'r cyngor, y swyddog monitro yw prif ffynhonnell y cynghorion a'r cyfarwyddyd am faterion safonau/moeseg a'r côd ymddwyn i gynghorwyr a swyddogion fel ei gilydd.

2. Pwyllgor moeseg a safonau. Yn ôl y gyfraith, dylai fod pwyllgor moeseg a safonau gan bob awdurdod lleol. Mae rheoliadau am eu haelodau, eu gweithdrefnau a'u pwerau. Mae gan y pwyllgor [bydd nifer yr aelodau'n amrywio yn ôl yr awdurdod] o aelodau. Rhaid i'r cadeirydd fod yn aelod annibynnol a dylai fod digon o aelodau annibynnol i sefydlu cworwm. Yn yr awdurdod hwn mae [] aelod annibynnol, [] aelod etholedig a [] aelod o gynghorau cymunedol. Dywedwch wrth y cynghorwyr faint o weithiau y bydd eich pwyllgor yn cwrdd a beth yw ei orchwyl fel sydd wedi'i amlinellu yn y cyfansoddiad. Mae'r pwyllgor yn cael penderfynu ar gyhuddiadau mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u cyflwyno iddo ynglŷn â thorri'r côd ymddwyn. Mae'n cael rhoi caniatâd i gynghorwyr gymryd rhan mewn materion na fyddai'r côd yn gadael iddyn nhw eu trafod fel arall, hefyd. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwilio, Caniatáu a Chyfeirio (Diwygiedig) (Cymru) 2016 yn galluogi swyddogion monitro i gyfeirio mater at bwyllgor safonau awdurdod arall gyda sêl bendith ysgrifenedig y cadeirydd. Drwy'r rhain y caiff cyd-bwyllgorau safonau eu sefydlu.

3. Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion mae pobl wedi'u cyflwyno ynglŷn â'r modd mae cyrff cyhoeddus wedi'u trin a'u trafod, gan hybu gweinyddu da a safonau uchel ymddwyn. Bydd yn ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr wedi torri'r côd ymddwyn, hefyd. Mae'r gyfraith yn amlinellu sut mae'n cael penderfynu a ddylai ymchwilio i gwynion neu beidio a sut dylai roi ei adroddiad gerbron pwyllgor moeseg a safonau cyngor neu Banel Dyfarnu Cymru wedyn.
4. Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gorff annibynnol gafodd ei sefydlu trwy Ran 3 Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000. Ei rôl yw sefydlu tribiwnlysoedd i ystyried a yw aelodau etholedig neu gyfetholedig o gynghorau sirol/bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r heddluoedd, y gwasanaethau tân/achub a'r parciau cenedlaethol wedi torri côd ymddwyn statudol eu hawdurdod. Bydd y panel yn ystyried apeliadau cynghorwyr yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau eu hawdurdodau, hefyd. I apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau, rhaid i gynghorydd ofyn i Banel Dyfarnu Cymru am ganiatâd i wneud hynny yn y lle cyntaf. Fel arfer, bydd gan dribiwnlys dri aelod ac un o aelodau cyfreithiol y panel fydd y cadeirydd. Ynglŷn ag achosion mae'r Ombwdsmon wedi'u cyflwyno iddo, bydd tribiwnlys yn cael cosbi cynghorwyr mewn amryw ffyrdd megis eu gwahardd rhag y swydd yn llawn neu'n rhannol am hyd at flwyddyn neu eu rhwystro rhag bod yn gynghorydd am hyd at bum mlynedd.

**Atodiad 3**
**Ymarfer ynglŷn â buddiannau**

## 1. Y Cynghorydd Arkwright

Mae'r Cynghorydd Fawlty yn berchen ar un o'r siopau nwyddau pob dydd mwyaf mewn tref ar lan y môr. Mae e'n aelod o bwyllgor cynllunio a phwyllgor trwyddedu'r cyngor. Mae bwriad i drafod y ceisiadau canlynol yn ystod y cyfarfod nesaf:
(a) cais gan orsaf betrol leol i adeiladu estyniad fydd yn cynnwys siop fwy sy'n gallu cynnig dewis gwell o nwyddau pob dydd i'w cwsmeriaid yn yr un dref;

(b) cais gan berchennog siop nwyddau pob dydd mewn tref 10 milltir i ffwrdd i adeiladu maes parcio ar dir y tu ôl i'r siop nwyddau pob dydd.

(c) cais gan berchennog siop bapur newydd ar gyrion y dref am drwydded i werthu alcohol. Mae'r Cynghorydd Arkwright yn ymwneud ag achos cyfreithiol yn erbyn hwnnw am berchnogaeth darn o dir, hefyd.

## 2. Y Cynghorydd Stokes

Mae'r Cynghorydd Stokes yn gwirfoddoli gyda thîm criced lleol i bobl ifainc. Mae'r tîm yn ymarfer ar gae mae'r cyngor yn berchen arno.

Mae'r cyngor yn ystyried gwerthu'r cae i gwmni adeiladu lleol a hoffai godi fflatiau yno. Pwyllgor yr ardal fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ar ôl ystyried adroddiad pennaeth gwasanaeth eiddo'r cyngor. Y Cynghorydd Stokes sy'n cynrychioli'r ward dan sylw.

Fydd y Cynghorydd Stokes ddim yn mynd i'r cyfarfod gan y bydd ar wyliau. Mae'n bwriadu anfon neges ebost at bennaeth gwasanaeth eiddo'r cyngor cyn mynd, fodd bynnag, i ddweud pa mor bwysig yw'r tîm criced i bobl ifanc y fro. Fe hoffai gwrdd â'r swyddog sy'n ymdrin â'r mater, hefyd.

## 3. Y Cynghorydd Jones

Mae'r Cynghorydd Jones yn aelod o bwyllgor cynllunio'r cyngor. Yn ystod ei gyfarfod nesaf, bydd y pwyllgor yn trafod y ddau gais canlynol:

(a) Cais gan gwmni sydd am godi adeilad gweinyddol bychan mewn ardal gadwraeth. Mae un o uwch reolwyr y cwmni'n briod â chyfnither y Cynghorydd Jones.
(b) Cais am godi ystafell ddosbarth newydd ar gyfer ysgol gynradd leol. Mae'r Cynghorydd Jones yn un o lywodraethwyr yr ysgol.

**Atodiad 4**
**Ymarfer ynglŷn â buddiannau – awgrymu rhai atebion**

**1. Y Cynghorydd Arkwright**

**Oes ganddo fudd personol?**

- Ym mhob mater, rhaid i gynghorydd ystyried a oes ganddo fudd personol ac a ddylai ei ddatgelu. [10. (1)]

- Byddai ganddo fudd personol pe bai'n effeithio ar unrhyw waith neu fusnes mae'n ymwneud ag e, neu'n debygol o effeithio arno. [10 (2)(a) (i)]

- Fyddai penderfyniad ar y cais yn effeithio ar fusnes y Cynghorydd Arkwright?

- Bydd ganddo fudd personol os yw'n rhesymol ystyried y bydd penderfyniad ar y mater yn effeithio ar les neu sefyllfa ariannol y cynghorydd ei hun neu rywun mae'n ei adnabod yn dda, a hynny i raddau mwy na'r rhan fwyaf o bobl eraill y ward neu'r adran etholiadol. [10 (2) (c) (i)]

- *'Ymhlith y bobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda, gallai fod rhywun rydych chi wedi bod mewn anghydfod ag e. Gallai fod lle i ystyried y byddwch chi am beri anfantais i hwnnw.' (Cyfarwyddyd yr Ombwdsmon)*

**Ydy'n fudd niweidiol?**

- Oes eithriad yn ôl y côd? [paragraffau 12(2) a (3)]

- Fyddai'n rhesymol i rywun sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y budd mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar y modd mae'r cynghorydd yn asesu lles y cyhoedd? [12(1)]

- *'Lle rydych chi wedi bod mewn anghydfod â rhywun allai fod dan anfantais yn sgîl penderfyniad, gallai aelod rhesymol o'r cyhoedd a chanddo'r wybodaeth berthnasol ddod i'r casgliad y byddech chi'n pleidleisio i'r perwyl hwnnw, boed hynny'n wir neu beidio.'* Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol Cymru, Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Beth y dylai ei wneud?**

- Os yw'n fudd niweidiol, fe ddylai'r cynghorydd weithredu fel a ganlyn oni bai bod pwyllgor y safonau wedi caniatáu iddo wneud fel arall:

    - gadael yr ystafell neu'r man lle mae cyfarfod yn ystyried y mater. [14(1)] oni bai bod gan rywun yr hawl i wneud sylwadau yn y cyfarfod, gall yntau hefyd ddefnyddio'r un hawl i siarad ar yr amod y bydd yn gadael yr ystafell cyn trafod

y mater, neu gall gyflwyno deunydd ysgrifenedig i'r cyfarfod. Dylai ddatgan ei fudd o hyd ac egluro natur y budd yma.

**2. Y Cynghorydd Stokes**

- Ym mhob mater, rhaid i gynghorydd ystyried a oes ganddo fudd personol ac a ddylai ei ddatgelu. [10. (1)]

- Bydd ganddo fudd os yw'r mater yn ymwneud â chlwb preifat, cymdeithas neu fudiad mae'n aelod ohono neu'n rheolwr iddo ym mro'r awdurdod, neu os yw’r mater yn debygol o effeithio ar sefydliad o’r fath.
[10 (2) (a) (ix)]

- Mae angen rhagor o wybodaeth am union natur perthynas y cynghorydd â'r clwb. Beth fyddai'r sefyllfa pe bai'n aelod o bwyllgor rheoli'r clwb?

**Ydy'n fudd niweidiol?**

- Oes eithriad yn ôl y côd? [paragraffau 12(2) a (3)]

- Fyddai'n rhesymol i rywun sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y budd mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar y modd mae'r cynghorydd yn asesu lles y cyhoedd? [12(1)]

**Beth y dylai ei wneud?**

- Os dim ond budd personol yw e, rhaid ei ddatgelu mewn unrhyw gyfarfod lle mae'r mater dan sylw ac mewn unrhyw lythyr, neges ac ati at gynghorydd neu swyddog yn yr awdurdod. [paragraff 11]

- Os yw'n fudd niweidiol, fe ddylai'r cynghorydd weithredu fel a ganlyn oni bai bod pwyllgor y safonau wedi caniatáu iddo wneud fel arall:
    - peidio â cheisio dylanwadu ar y penderfyniad am y mater;
    - peidio â chyflwyno deunydd ysgrifenedig (boed trwy lythyr, ffacs neu fath arall o gyfathrebu electronig) am y mater hwnnw. [14(1) (c) a (d)]

*'..ddylech chi ddim ceisio dylanwadu ar benderfyniad mae gyda chi budd niweidiol ynddo. Mae'r rheol hon yn debyg i'r gofyn cyffredinol na ddylech chi ddefnyddio'ch statws mewn modd amhriodol er mantais/anfantais i chi neu rywun arall.'*

- Oes rhywun arall sy'n gallu trafod y mater gyda'r cyngor ar ran y clwb?

- Dylai'r budd (sef, ymwneud â chlwb ieuenctid) gael ei gofnodi yng nghofrestr y cyngor am fuddiannau ei gynghorwyr.

**3. Y Cynghorydd Jones**

(a) Dylai'r cynghorydd ystyried a oes ganddi fudd personol a niweidiol yn y cais am ganiatâd cynllunio. Yn ôl paragraff 10 (2) (c) (i), byddai ganddi fudd personol pe bai'r penderfyniad yn effeithio ar ei les neu ei sefyllfa ariannol neu les/sefyllfa ariannol rhywun mae'n byw gydag e neu rywun mae'n ei adnabod yn dda.

Mae'n aneglur beth yw perthynas y cynghorydd â'r uwch reolwr. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i helpu i'w diffinio:
*'Ymhlith pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda byddai cyfeillion agos, cydweithwyr rydych chi'n arbennig o agos atyn nhw, pobl rydych chi'n ymwneud â nhw trwy'ch gwaith a'ch perthnasau agos. Dyw'r diffiniad ddim yn cynnwys y rhai o'ch cydnabod, y rhai sy'n perthyn ichi o bell na'r rhai y byddwch chi'n cwrdd â nhw trwy'ch gwaith yn gynghorydd neu'ch gwaith yn y gymuned.'*

(b) Mae ganddi fudd personol am fod corff llywodraethu'r ysgol yn gorff mae'r cyngor wedi'i hethol, ei phenodi neu ei henwebu iddo. [10(2)(a)(viii)]
Mae'r cyrff o'r fath wedi'u heithrio yn y côd ac, felly, fydd y budd ddim yn un niweidiol, fel arfer. [12(2) (a) (iii)]

Fydd yr eithriad hwnnw ddim yn berthnasol, fodd bynnag, am fod y mater dan sylw'n ymwneud â chymeradwyo, caniatáu, trwyddedu neu gofrestru. Felly, rhaid defnyddio'r meini prawf cyffredinol i benderfynu a yw'r budd yn un niweidiol. [10(3)]

**Atodiad 5**

Daeth yr astudiaeth achos hon o Lyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Gellir dod o hyd i'r ddolen ar gyfer y llyfr achos yma: Coflyfr-y-Cod-Ymddygiad-Ionawr-Mawrth-2021.pdf (ombwdsmon.cymru)

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – Datgelu a chofrestru buddiannau
Rhif Achos: 201903571 - Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2021

Derbyniodd yr Ombwdsmon gŵyn hunangyfeirio bod Aelod ("yr Aelod") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad.

Roedd yr Aelod yn cynrychioli'r Cyngor fel aelod o Gabinet Rhanbarthol y Fargen Ddinesig, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ("CCR"). Honnwyd bod yr Aelod wedi prynu cyfranddaliadau mewn cwmni ("y Cwmni") a oedd wedi cael mangreoedd ar brydles gan Fargen Ddinesig Prifddinas Ranbarth Caerdydd, i weithgynhyrchu lled-ddargludyddion cyfansawdd a datblygu ceisiadau. Wedi hynny, honnwyd iddo fethu â datgan buddiant yn y Cwmni yn ystod Cyfarfodydd Cyd-bwyllgor y Fargen Ddinesig, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ymchwiliwyd i'r gŵyn ar y sail y gallai methiant wedi bod i gydymffurfio â darpariaethau canlynol y Cod Ymddygiad:

- 6(1)(a) - ni ddylai aelodau ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei ystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eu swydd neu ar eu hawdurdod;
- 7(a) – ni ddylai aelodau, yn eu capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eu safle i roi neu i sicrhau mantais iddynt eu hunain.
- 10(2)(viii) – rhaid i aelodau ystyried bod ganddynt fuddiant personol mewn unrhyw fusnes eu hawdurdod, os yw'n ymwneud ag, neu'n debygol o effeithio... unrhyw gorff y maent wedi'u hethol iddo, eu penodi neu eu henwebu gan eu hawdurdod.
- 11(1) – Pan fydd gan aelod fuddiant personol mewn unrhyw fusnes ei awdurdod a phan fydd yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid iddo ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.
- 14(1)(a) – Pan fydd gan aelod fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes ei awdurdod, oni roddwyd gollyngiad iddo gan bwyllgor safonau ei awdurdod, mae'n rhaid iddo ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal.

Canfu'r ymchwiliad fod gan yr Aelod fynediad at wybodaeth gyfrinachol yn rhinwedd ei swydd ar Gabinet Rhanbarthol y Fargen Ddinesig, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ("CCR"), a'i alluogodd i brynu cyfranddaliadau yn y Cwmni am bris isel gyda disgwyliad rhesymol y gallai werthu'r cyfranddaliadau hynny'n ddiweddarach am werth uwch. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd ei weithredoedd yn unol ag ysbryd yr Egwyddorion sy'n sail i'r Cod Ymddygiad, yn enwedig yr egwyddor o uniondeb, sy'n disgwyl i aelodau beidio â gweithredu neu wneud penderfyniad er mwyn cael buddion ariannol drostynt eu hunain.

Roedd yr Ombwdsmon hefyd o'r farn bod ymddygiad yr Aelod yn awgrymu ei fod wedi torri paragraff 7(a) a 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

O ran yr honiad bod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant yn y Cwmni yn ystod cyfarfodydd Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, canfu'r ymchwiliad fod yr Aelod wedi methu â datgan buddiant yn y Cwmni yn ystod cyfarfod Cabinet Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar 18 Chwefror 2019 ac, er na wnaed unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â’r Cwmni yn ystod y cyfarfod hwn, roedd methiant yr Aelod i ddatgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu, a thynnu'n ôl o'r cyfarfod yn awgrymu achosion o dorri paragraffau 11(1) a 14(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

Daeth yr ymchwiliad i’r casgliad y dylid cyfeirio adroddiad yr Ombwdsmon ar yr ymchwiliad at Lywydd Panel Dyfarnu Cymru, er mwyn ystyried y toriad posibl o baragraffau 6(1)(a), 7(a), 11(1) a 14(1)(a) o'r Cod Ymddygiad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Member/Officer Protocol

Gary Williams
Monitoring Officer



Positive about disabled people · Yn gadarn o blaid pobl anabl

# What is the Member/Officer Protocol?

- The purpose of the protocol is to guide Members and Officers in their relations with one another and to promote the high standards in public office which are essential for successful local government.
- The protocol seeks to offer guidance on some of the issues which most commonly arise.

# Underlying Principles

- An understanding by both Members and Officers of the requirements of each other's roles
- Mutual respect for each other's time and priorities.
- Courtesy and sensitivity at all times.
- Honesty and integrity in all dealings to foster co-operation and trust.
- Professional and cordial relationships avoiding over familiarity

# Interface with Member Code of Conduct

- Must have regard to equality of opportunity for all people,
- Must show respect and consideration for others
- Must not bully or harass any person
- Must not compromise the impartiality of officers

# Roles and responsibilities - Officers

- Officers are employed by and are responsible to the Council as a whole.
- They owe a duty to each and every Member and not to a political group, even if it is in a majority.
- They also have a wider duty to the public as a whole.
- Some officers have personal statutory responsibilities

# Roles and responsibilities - Members

- Scrutinising decisions and holding decision makers to account
- Representing their electoral division as advocates for the citizens who live in the area.
- Members contribute to the decisions taken in Full Council and in its various bodies on which they serve including regional partnership bodies

# What can members expect from officers?

- Full, impartial advice and information.
- Accurate, concise, well written advice in and easily understood formats and language
- For the above to be provided in the Member's preferred language of communication.
- Respect for their person
- Respect for the confidential nature of information and views.

# What can officers expect from members?

- Respect for officer neutrality
- Respect for their person
- An understanding of their roles and workloads when making requests for assistance
- Reasonable standards of courtesy
- Respect for confidential advice and guidance.

# The Relationship

- Mutual respect is essential to good local government.
- Officers and Members should have good working relationships, whilst being aware that close personal relationships can damage this and prove embarrassing for other Officers and Members

# Inappropriate conduct

- Members should not inappropriately pressure officers to act in accordance with the Member's wishes.
- Officers must at all times feel free to offer professional opinion and advice which may be contrary to the opinion of the Member
- Acting with the intention of improperly or unfairly influencing an Officer's opinion or actions can amount to bullying and harassment

# Raising issues of conduct and capability - members

- It is not appropriate for Members to raise matters relating to conduct and capability of any Officer publicly in a meeting, the press, or by other means e.g. e-mail or internet.
- Members should use the Council's internal procedures to resolve such issues.
- 'Publicly' - includes in this context e-mailing large groups of people on the Council's internal e-mail system e.g. all Councillors.

# Raising issues of conduct and capability - officers

- Officers should not raise matters publicly relating to the conduct or capability of any Member either at a meeting, in the press or by other means e.g. e-mail, internet or social media.
- Unless as part of a statutory process for dealing with issues of conduct.

# Relationships with Chairs and Cabinet members

- There should be a close working relationship between Cabinet Members and senior officers of those services which fall under a Cabinet Member's portfolio
- This should never be allowed become, or appear to be, so close, as to bring into question the Officer's ability to deal impartially with other Members or political groups.

# Relationships with Chairs and Cabinet members

- Duty of officers to assist the Cabinet in the delivery of its responsibilities but the Leader and Cabinet must observe the independence of the management function of the authority from the decision making function.
- Chairs of committee or Lead Members will routinely be consulted on agendas for forthcoming meetings, however, it must be recognised that in certain circumstances senior officers will have a duty to submit a report on a particular matter.
- Officers writing reports on behalf of Lead Members will always consult the Lead Member on their content.

# Officer advice to political groups

- Directors or Heads of Service may properly be called upon to advise the chairs or spokespersons of political groups.
- They should attend group meetings only in exceptional circumstances and in such a case the other political groups should be informed of the advice given.
- Officer support in must not extend beyond providing information and advice in relation to Council business. Officers must not be involved in advising on political group business;

# Advice to Political Groups

- Political group meetings are not empowered to make decisions on behalf of the Council.
- Conclusions reached at such meetings do not rank as Council decisions and it is essential that they are not interpreted or acted upon as such.
- Where Officers provide information and advice to the chair or spokesperson of a political group in relation to a matter of Council business, this cannot be a substitute for providing all necessary information and advice to Members when the matter in question is before a decision making body.

# Officer attendance at meetings not organised by the Council

- Officers will advise formal meetings of the Council, informal meetings of Members of the Council, and other meetings organised by the Council.
- Officers must not attend public meetings of a political nature organised by politicians external to the Council in order to represent the political view or programme of the Council.
- Such invitations should be referred to Cabinet Support Staff who will liaise with the Leader
- The Leader will determine whether the Council should be represented, and if so by which member of the Cabinet

# Support services to members and political groups.

- Support can only lawfully be provided in respect of matters of Council business.
- Support cannot be provided for party political business, campaigning, or for private purposes.

# Members in their Ward Role and Officers

- Members need to be aware of significant developments within their electoral divisions if they are to be effective in their roles.
- Senior Officers as well as Lead members are expected to notify local Members of significant matters that are not the subject of a report to Council, Cabinet or Committee, but which relate specifically to the local Member's electoral division or which may have a material impact in their area
- 'Significant matters' include matters or items that are of concern to the general public and local member

# Members in their Ward Role and Officers

- Local Member(s) should, where appropriate, be invited to relevant meetings.
- If local Members do not attend such meeting for whatever reason, they should be advised by the convenor of the meeting (provided the meeting is convened by the Council or its officers) of any significant outcome.
- Local Members will also be informed of significant matters raised by the Town or Community Council within their area.
- Protocol for Liaison with Members

# Members in their Ward Role and Officers

- When the Council conducts any form of consultation exercise on a local issue, the Ward Members should be notified at the outset of the exercise.
- Officers exercising delegated powers shall consider whether their decision is likely to have a significant impact upon the Council's profile or significant financial implications, if it is there will be a presumption in favour of referring the matter to Members.
- When exercising delegated powers Officers will, ensure that they consult with/inform the local Member in advance.

# Members' access to information and buildings

- Members can approach any department to request any information, explanation and advice as they may reasonably need to assist them in discharging their role as Members.
- A request for information may be made on behalf of a constituent, but any request for personal information should be authorised in writing by that constituent.
- Requests should normally be directed to the Head of Service or another Senior Officer of the service.

# Members' access to information and buildings

- A Member should always contact beforehand any Officer that he/she wishes to see, to ensure that the Officer is available and prepared to answer the Member's questions
- A Member should always call at reception and ask for the Officer
- Officers should always ensure that, bearing in mind the reasonable calls of their other duties, they respond to a reasonable request for information relevant to a member's work or a request for a meeting.

# Members' access to information and buildings

- Contact between Members and Officers should only take place at agreed office or other locations. Members and Officers should not arrange meetings at their respective homes.
- Telephone contact between Members and Officers should be restricted to normal office hours. Out of hours contact should be in exceptional circumstances only and restricted to Directors and Heads of Service.
- Members are entitled to have access to the Council Chamber, Committee rooms and all other public areas of the Council's buildings. Members should enter 'staff only' areas only with authorisation of the relevant Head of Service.

# Members' rights to inspect Council documents.

- Same rights as public under Freedom of Information Act
- In addition, Members have a statutory right to inspect any Council document relating to any business to be transacted at a Council, committee or sub-committee meeting.
- This does not extend to 'exempt information' but Members have a common law right to information based upon the 'need to know' principle. Mere curiosity is insufficient
- At DCC all Members are provided with all papers, including exempt information going to a Committee whether they are a member of it or not.
- Information should only be used for the purposes for which it was provided

# Correspondence between Members and Officers, including e-mail

- Correspondence between an individual Member and an Officer should not normally be copied by the Officer to any other Member.
- This restriction will not normally apply to Cabinet matters where the Cabinet as a whole will need to be informed of matters which will be of concern to all or several Cabinet Members.
- Where exceptionally it is necessary to copy the correspondence to another Member, this should be made clear to the original Member. In other words, a system of 'silent copies' should not be employed.

# Correspondence between Members and Officers, including e-mail

- E-mail should not be used by Officers or Members in such a way that it may be regarded as intimidating or exerting undue influence e.g. critical e-mail copied to all members
- Official letters on behalf of the Council should be sent out either in the name of the appropriate portfolio holder or in the name of the appropriate Officer.
- Lead Members will be advised by their Senior Officers as to when a response from themselves rather than an Officer is the most appropriate.
- Letters which create obligations or give instructions on behalf of the Council should never be sent in the name of a Member.

# Breaches of the protocol

- Breaches of this protocol by officers may lead to disciplinary action
- Breaches of the protocol by members may lead to an allegation being made to the Ombudsman of a breach of the code of conduct
- A member who wishes to complain about an officer breach should do so to the relevant Head of Service
- An officer who wishes to complain about a member breach should do so to their Head of Service
- The Head of Service will seek if possible to resolve the issue informally

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# Conclusion

- This relationship is very important
- Good member/officer relationships is one of the 5 principles underlying how the Council will operate.
- Effective relationships between members and officers are key to an effective Council
- This must not prevent robust challenge between officers and members
- The framework enables such challenge to be made in an open and respectful way

# Any questions?

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 22 / 07 / 2022 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Canllawiau Llywodraeth Cymru – Dyletswydd Arweinwyr Grwpiau i Hyrwyddo Ymddygiad Moesegol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Y canllawiau statudol drafft a luniwyd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r ddyletswydd newydd a osodwyd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i hybu ymddygiad moesegol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Hysbysu aelodau'r Pwyllgor am y canllawiau drafft a cheisio eu barn ar gynigion i gefnogi arweinwyr grwpiau i gyflawni'r ddyletswydd hon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn ystyried y canllawiau drafft ac yn trafod y trefniadau ymarferol i'w gwneud i gydymffurfio â hwy.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ('y Ddeddf') yn rhoi dyletswydd newydd ar Arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad eu haelodau.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

4.2. Mae adran 62 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (‘y Ddeddf’) yn rhoi dyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol i gymryd camau i hybu a chynnal safonau uchel o ymddygiad eu haelodau.

4.3. Cynhyrchodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol draft (Atodiad 1) ar gyfer arweinwyr grwpiau a phwyllgorau safonau cyn yr etholiad a cheisiodd farn arnynt. Gellir gweld y canllawiau drafft yma: https://llyw.cymru/ymgynghoriad-ar-ddeddf-llywodraeth-leol-ac-etholiadau-cymru-2021-canllawiau-statudol-ar-safonau .Yn anffodus, nid oedd y cyfnod ymgynghori yn cyd-daro â chylch cyfarfodydd y pwyllgor. Disgwylir fersiwn terfynol y canllawiau.

4.4. Mae’r canllawiau drafft yn cynnwys enghreifftiau o sut y gallai Arweinwyr Grŵp gyflawni eu dyletswydd megis:

• dangos ymrwymiad personol i ddatblygiad neu hyfforddiant perthnasol sy'n ymwneud â chydraddoldeb a safonau, a mynd iddynt;

• annog aelodau'r grŵp i fynychu datblygiad neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau;

• sicrhau bod enwebeion i Bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y Pwyllgor hwnnw;

• hyrwyddo gwendid a pharch o fewn cyfathrebiadau grŵp a chyfarfodydd ac yng nghyfarfodydd ffurfiol y Cyngor;

• hyrwyddo gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y Cyngor, a gweithio gyda'r Pwyllgor safonau a swyddogion monitro i sicrhau datrysiad lleol;

• hyrwyddo diwylliant o fewn y grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ymddygiad ac uniondeb;

• mynychu cyfarfod o Bwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir i chi drafod materion Cod Ymddygiad;

• gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau;

• cydweithio ag Arweinwyr Grwpiau eraill, o fewn rheswm, i gefnogi ar y cyd safonau uchel o ymddygiad o fewn y Cyngor.

4.5. Mae'r canllawiau drafft yn ei gwneud yn glir y dylai'r Pwyllgor drefnu i hyfforddi'r Arweinwyr Grwpiau ar y ddyletswydd o fewn 6 mis i'r etholiadau ac yn flynyddol wedi hynny. Mae'n awgrymu cyfarfod o bryd i'w gilydd ag Arweinwyr Grwpiau i adolygu ymddygiad. Gofynnir i Arweinwyr Grwpiau a'r Pwyllgor hwn ystyried cynigion ar gyfer cyfrwng ar gyfer cyfarfodydd o'r fath ar ffurf Grŵp Cyswllt Moesegol.

4.6. Mae'r canllawiau drafft hefyd yn cyfeirio at yr angen i arweinwyr grwpiau gyflwyno adroddiadau i'r Pwyllgor Safonau ar eu cynnydd wrth gyflawni eu dyletswydd. Bydd y Pwyllgor Safonau yn gallu trafod yr adroddiadau hyn gydag arweinwyr grwpiau a'u defnyddio fel sail i adroddiad blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor ar y ffordd y mae arweinwyr grwpiau yn cyflawni'r ddyletswydd hon.

4.7. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod y dull a ffafrir ganddo o fonitro dyletswydd arweinwyr grwpiau a'r cymorth sydd i'w ddarparu iddynt.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid yw'r adroddiad yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol, fodd bynnag, mae safonau ymddygiad uchel yn elfen allweddol o lywodraeth leol effeithiol.

# 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Mae'r adroddiad hwn yn ymgynghori â'r Pwyllgor. Cynhelir trafodaethau gydag arweinwyr grwpiau i ymgynghori â hwy ar yr hyfforddiant sydd ei angen i gyflawni'r

ddyletswydd hon a'r trefniadau i'w rhoi ar waith i gefnogi a monitro'r gwaith o gyflawni'r ddyletswydd.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn 6.1, nid oes unrhyw effaith ariannol uniongyrchol i'r adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Bydd cyflwyno'r ddyletswydd hon a rôl ehangach y Pwyllgor wrth gefnogi ei chyflawni, yn lliniaru'r risg o ymddygiad nad yw'n cyrraedd y safonau ymddygiad disgwyliedig.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a54 Deddf Llywodraeth Leol 2000

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Safonau |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 22/07/2022 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Swyddog Monitro |
| **Teitl** | Fforwm Safonau Cenedlaethol |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cynnig i greu Fforwm Safonau Cenedlaethol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n cael ei wneud i greu Fforwm Safonau Cenedlaethol i Gymru.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei gefnogaeth i greu Fforwm Safonau Cenedlaethol ac yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Un o'r argymhellion a wnaed fel rhan o Adolygiad Penn o'r Gyfundrefn Foesegol yng Nghymru yw y dylid ymestyn y fforwm presennol ar gyfer Aelodau Annibynnol Pwyllgorau Safonau, sef Fforwm Safonau Canolbarth a Gogledd Cymru, i gynnwys Cymru gyfan. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy greu Fforwm Cenedlaethol ar gyfer Pwyllgorau Safonau.

4.2. Crëwyd Fforwm Safonau Canolbarth a Gogledd Cymru fel cyfle i Gadeiryddion Pwyllgorau Safonau annibynnol:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

- Cyfnewid syniadau ac arfer gorau
- Sefydlu rhwydwaith cefnogi
- Materion dadl a phynciau o berthnasedd cyffredin
- Derbyn hyfforddiant

4.3. Crëwyd y corff yn wreiddiol gan Swyddogion Monitro Gogledd Cymru. Yn 2019 cytunodd y fforwm i gynnwys 2 Gyngor o Ganolbarth Cymru.

4.4. Hyd yn hyn, mae cefnogaeth i'r fforwm wedi'i darparu gan y swyddogion monitro eu hunain ar sail gylchdro. Bydd pob cyngor yn "croesawu" y cyfarfod yn ei dro a byddai Swyddog Monitro'r Cyngor hwnnw yn paratoi'r agenda, yn cynghori'r fforwm ac yn drafftio'r cofnodion. Fel arfer ni fyddai Swyddogion Monitro eraill yn mynychu er mwyn arbed amser a dyblygu ymdrech. Yn dybiannol, roedd cyfarfodydd y fforwm yn cael eu cynnal ddwywaith y flwyddyn ond roedd hynny'n destun pwysau o ran adnoddau yn y Cyngor a oedd bod i weithredu fel gwesteiwr nesaf.

4.5. Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Penn gofynnwyd i holl swyddogion monitro Cymru a fyddai eu hawdurdod yn cefnogi ehangu'r fforwm presennol i Gymru gyfan. Mae pob awdurdod wedi ymateb yn gadarnhaol ac efallai y bydd CLlLC yn fodlon helpu i gefnogi'r fforwm ehangach.

4.6. Yn flaenorol roedd cyfarfodydd yn rhai peripatetig, gan symud o Gyngor i Gyngor. O ystyried y gwasgariad daearyddol ehangach sydd ei angen ar gyfer fforwm cenedlaethol, byddai'n gwneud synnwyr i gyfarfodydd gael eu cynnal o bell. Byddai angen i unrhyw gyfarfodydd sy'n cael eu cynnal yn gorfforol gael eu cynnal mewn lleoliad canolog sy'n hygyrch i bob rhan o Gymru. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn yr ymrwymiad amser, cost ac ôl troed carbon i fynychu.

4.7. Os yw CLlLC yn fodlon darparu ysgrifenyddiaeth i'r fforwm yna byddai hyn yn cynrychioli gostyngiad bach yn y baich ar y Cyngor hwn ac yn darparu un pwynt cyswllt cyson ar gyfer gweinyddu'r fforwm.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Nid oes unrhyw effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'n debygol y bydd gostyngiad bach ym maich gweinyddol y fforwm a gefnogir gan CLlLC. Byddai cynnydd bach mewn costau teithio pe bai'r fforwm yn cyfarfod wyneb yn wyneb.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ni fu unrhyw ymgynghoriadau mewnol ffurfiol gyda'r Pwyllgorau Archwilio. Gofynnwyd i Swyddogion Monitro ledled Cymru nodi a fyddai eu hawdurdod yn cefnogi fforwm cenedlaethol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel y nodwyd yn 6.1, ni fydd unrhyw newid sylweddol i'r gofyniad cost net ar gyfer y gwasanaeth hwn a bydd yn cael ei dalu o'r dyraniadau cyllideb bresennol. Felly nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag